



# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

2018 dccc 2

Nodiadau Esboniadol

# Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018

2018 anaw 2

Explanatory Notes

**£14.25**





# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

2018 dccc 2

Nodiadau Esboniadol

# Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018

2018 anaw 2

Explanatory Notes

# **DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018**

---

## **NODIADAU ESBONIADOL**

### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2017 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.
2. Ni fwriedir i'r Nodiadau Esboniadol fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar ddarpariaeth unigol o'r Ddeddf, nis rhoddir.
3. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, ystyr 'Ddeddf 1996' yw Ddeddf Addysg 1996 ac ystyr 'Ddeddf 2000' yw Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae cyfeiriadau at awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a sefydliadau yn y sector addysg bellach yn gyfeiriadau at y rheini yng Nghymru oni nodir fel arall. Mae cyfeiriadau at adrannau a Rhannau yn gyfeiriadau at yr adrannau hynny a'r Rhannau hynny o'r Ddeddf, oni nodir fel arall. Mae byrfoddau cyffredin eraill a ddefnyddir yn y nodiadau hyn wedi eu nodi o dan 'Trosolwg cyffredinol o'r Ddeddf'.

### **TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF**

4. Mae pedair Rhan i'r Ddeddf sy'n cynnwys 101 o adrannau ac un Atodlen. Mae Rhan 2 wedi ei rhannu'n bum pennod.
5. Mae'n sefydlu fframwaith statudol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ('ADY'). Mae hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ('AAA') ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau ('ADA') mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei disodli ar AAA wedi ei chynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf 1996 ac mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei disodli ar ADA wedi ei chynnwys yn Neddf 2000.
6. Mae'n cyflwyno cynllun statudol newydd o'r enw 'cynllun datblygu unigol' (y cyfeirir ato fel 'CDU' yn y nodiadau hyn) i ddisodli cynlluniau addysg statudol ac anstatudol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA ac ADA yn benodol. Mae ystyr plentyn ac ystyr person ifanc at ddibenion y Ddeddf hon wedi eu nodi yn adrann 99. Ystyr 'plentyn' yw person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac ystyr 'person ifanc' yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 25 oed.

# **ADDITIONAL LEARNING NEEDS AND EDUCATION TRIBUNAL (WALES) ACT 2018**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **INTRODUCTION**

1. These Explanatory Notes are for the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 which was passed by the National Assembly for Wales on 12 December 2017 and received Royal Assent on 24 January 2018. They have been prepared by the Education and Public Services Group of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.
2. The Explanatory Notes are not meant to be a comprehensive description of the Act. Where an individual provision of the Act does not seem to require any explanation or comment, none is given.
3. In these Explanatory Notes, 'the 1996 Act' means the Education Act 1996 and 'the 2000 Act' means the Learning and Skills Act 2000. References to local authorities, maintained schools and institutions in the further education sector are to those in Wales unless otherwise indicated. References to sections and Parts are to those of the Act, unless otherwise indicated. Other common abbreviations used in these notes are set out under 'General overview of the Act'.

### **GENERAL OVERVIEW OF THE ACT**

4. The Act has four Parts comprising 101 sections and one Schedule. Part 2 is separated into five chapters.
5. It establishes a statutory framework for supporting children and young people with additional learning needs ('ALN'). This replaces the legislation surrounding special educational needs ('SEN') and the assessment of children and young people with learning difficulties and/or disabilities ('LDD') in post-16 education and training. The legislation being replaced on SEN is in Part 4 of the 1996 Act and that on LDD is in the 2000 Act.
6. It introduces a new statutory plan called an 'individual development plan' (referred to as an 'IDP' in these notes) to replace statutory and non-statutory education plans specifically for children and young people with SEN and LDD. The meanings of child and young person for the purposes of this Act are set out in section 99. A 'child' means a person not over compulsory school age, while a 'young person' means a person over compulsory school age but under 25.

7. Mae'n darparu hawliau apelio i blant, i rieni plant ac i bobl ifanc mewn cysylltiad â'r cynllun statudol newydd hwn a hawliau cysylltiedig ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae'r apelau hyn yn cael eu gwneud i Dribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys"), sef enw newydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC").
8. Mae'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau eraill, gan gynnwys Deddf 1996, Deddf 2000, Mesur Addysg (Cymru) 2009 a Deddf Cydraddoldeb 2010.
9. Mae cod ar ADY ('y cod') yn ategu'r Ddeddf ac yn cynnwys gofynion pellach ar gyrrff penodol a chanllawiau i gyrrff ynghylch arfer eu swyddogaethau. Gweler y nodiadau i adran 4 i gael rhagor o fanylion. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau i nodi rhai manylion pellach ynghylch y system.
10. Mae rhai darpariaethau yn y Ddeddf yn nodi'r sefyllfa gyffredinol, ond mae angen eu darllen ar y cyd ag adrannau eraill o'r Ddeddf (neu o Ddeddf 1996) mewn rhai achosion. Yn benodol:
  - a. mae darpariaethau penodol ar gyfer rhai plant sy'n derbyn gofal (gweler adrannau 15 - 19 a 24 yn benodol);
  - b. mae darpariaethau penodol sy'n delio â'r ffordd y mae dyletswyddau yn y Ddeddf yn gymwys mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth ac sy'n darparu ar gyfer dyletswyddau penodol ar gyfer rhai sefyllfaoedd o'r fath (adrannau 29 - 45 a 72 - 73, yn ogystal ag adran 562 o Ddeddf 1996 fel y'i cymhwysir gan adran 44);
  - c. mae adran 86 yn delio ag ystyr cyfeiriadau at bersonau sydd wedi ymrestru'n fyfyrwyr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach ('sefydliad addysg bellach'), ac yn y bôn, nid ydynt yn cynnwys myfyrwyr ymrestredig i'r graddau y maent yn dilyn addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad addysg bellach;
  - d. mae adran 87 yn cymhwysyo gydag addasiadau ddarpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â swyddogaethau awdurdodau lleol mewn cysylltiad â disgyblion a myfyrwyr sydd yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sydd wedi ymrestru â sefydliad addysg bellach yng Nghymru;
  - e. mae llawer o swyddogaethau awdurdodau lleol yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt. Mae adran 99(4) yn diffinio hyn fel bod y plentyn neu'r person ifanc yn ardal yr awdurdod lleol. Mae diffiniad rhannol o hyn wedi ei roi yn adran 579(3A) a (3B) o Ddeddf 1996, a gaiff ei ddiwygio gan adran 95;
  - f. mae adrannau 84 a 85 yn berthnasol i unrhyw ofyniad i hysbysu plentyn am fater neu i roi gwybod i blentyn am fater neu i roi copi o ddogfen i blentyn, yn ogystal ag ychydig o ddyletswyddau ac amodau eraill o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â chais oddi wrth blentyn neu drafodaeth â phlentyn. Mae pa un a yw'r ddyletswydd neu'r amod yn gymwys mewn perthynas â phlentyn penodol yn dibynnu ar alluedd y plentyn ac mae adran 84 yn nodi sut y penderfynir a oes gan y plentyn alluedd. Mae adran 85 yn delio â chyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd a sut yr arferir hawliau'r plentyn.

7. It provides rights of appeal to children, the parents of children and young people in connection with this new statutory plan and related rights about additional learning provision (referred to as 'ALP' in these notes). These appeals are to the Education Tribunal for Wales ("the Tribunal"), which is the new name for the Special Educational Needs Tribunal for Wales ('SENTW').
8. It makes consequential amendments to other Acts, including the 1996 Act, the 2000 Act, the Education (Wales) Measure 2009, and the Equality Act 2010.
9. The Act is supplemented by a code on ALN ('the code') which contains further requirements on particular bodies and guidance to bodies about the exercise of their functions. See the notes to section 4 for further detail. The Act also contains regulation making powers to set out some further details of the system.
10. Some provisions of the Act set out the general position, but they need to be read in conjunction with other sections of the Act (or of the 1996 Act) in some scenarios. In particular:
  - a. there are specific provisions for some looked after children (in particular see sections 15 – 19 and 24);
  - b. there are specific provisions dealing with how duties in the Act apply in relation to children or young people who are detained and providing for specific duties for some such situations (sections 29 – 45 and 72 – 73, as well as section 562 of the 1996 Act as it is applied by section 44);
  - c. section 86 deals with the meaning of references to persons enrolled as students at an institution in the further education sector ('FEI'), essentially, they do not include enrolled students to the extent that they are undertaking higher education provided by the FEI;
  - d. section 87 applies with modifications provisions of the Act related to local authorities' functions in respect of pupils and students who are in the area of a local authority in England but registered at a maintained school in Wales or enrolled with an FEI in Wales;
  - e. many local authority functions relate to children or young people for whom the local authority is responsible. Section 99(4) defines this as the child or young person being in the area of the local authority. A partial definition of this is given in section 579(3A) and (3B) of the 1996 Act, which is amended by section 95;
  - f. sections 84 and 85 are relevant to any requirement to notify or inform a child of a matter or to give a copy of a document to a child, as well as a few other duties and conditions under the Act which involve a request from, or discussion with, a child. Whether the duty or condition applies in relation to a particular child depends upon the child's capacity and section 84 sets out how it is decided whether the child has capacity. Section 85 deals with case friends for children lacking capacity and how the child's rights are exercised.

## **SYLWEBAETH ARADRANNAU'R DDEDDF**

### **Rhan 1 - Trosolwg**

#### **Adran 1 - Trosolwg o'r Ddeddf hon**

11. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys y Ddeddf.

### **Rhan 2 - Anghenion Dysgu Ychwanegol**

#### **Pennod 1 - Termau Allweddol, y Cod a Chyfranogiad**

##### **Termau allweddol**

#### **Adran 2 - Anghenion dysgu ychwanegol**

12. Mae adran 2 yn diffinio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' ('ADY') at ddibenion y Ddeddf. Mae'r diffiniad hwn yn debyg iawn i'r diffiniad o 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) o dan Ddeddf 1996 ond nid yw'n gyfyngedig i blant a disgyblion cofrestredig ysgol sydd o dan 19 oed, fel yn achos y diffiniad o AAA. Mae gan berson ADY os oes ganddo "anhawster dysgu neu anabledd" (gweler is-adrannau (2) – (3) i gael ystyr hyn) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (gweler adran 3 i gael y diffiniad ohoni).
13. Mae is-adran (1) yn egluro bod anhawster dysgu neu anabledd yn gallu deillio o gyflwr meddygol, ond nid oes rhaid iddo fod wedi deillio o gyflwr meddygol. Hefyd, nid ystyrir bod gan berson ADY oherwydd bod iaith y cartref yn wahanol i'r iaith y mae'n cael ei addysgu yn ddi (is-adran (4)).

#### **Adran 3 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol**

14. Mae adran 3 yn diffinio ystyr 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' sydd yn ddi i hun yn rhan o'r diffiniad o ADY yn adran 2. Mae'r diffiniad hwn yn debyg iawn i'r diffiniad o 'darpariaeth addysgol arbennig' a geir yn Neddf 1996 ond yn benodol mae'n ehangu'r diffiniad drwy gyfeirio at sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru (sefydliadau addysg bellach prif ffrwd) am ei fod, yn wahanol i'r diffiniad o AAA, yn gymwys mewn perthynas â phobl ifanc sy'n fyfyrwyr mewn sefydliadau o'r fath. Mae sefydliadau addysg bellach prif ffrwd wedi eu diffinio yn adran 99.
15. Mae'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd wedi ei gynnwys yn y Ddeddf wedi ei wneud drwy gyfeirio at oedran plentyn, gyda diffiniad ychydig yn wahanol yn gweithredu mewn perthynas â phlant o dan dair oed (o gymharu â phlant o dan ddwy oed yn Neddf 1996). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r wladwriaeth yn gwneud darpariaeth addysgol ffurfiol ar gyfer plant o dan dair oed. Mae rheoliadau o dan yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid y cyfeiriadau at dair oed i gyfeiriadau at oedran gwahanol.

## **COMMENTARY ON SECTIONS OF THE ACT**

### **Part 1 – Overview**

#### **Section 1 - Overview of this Act**

11. This section describes the content of the Act.

### **Part 2 – Additional Learning Needs**

#### **Chapter 1 - Key Terms, Code and Participation**

##### **Key terms**

#### **Section 2 - Additional learning needs**

12. Section 2 defines the term 'additional learning needs' (ALN) for the purposes of the Act. This definition is very similar to the definition of 'special educational needs' (SEN) under the 1996 Act but is not limited to children and registered pupils of a school below the age of 19, as in the case of the definition of SEN. A person has ALN if the person has a "learning difficulty or disability" (see subsections (2) – (3) for the meaning of this) which calls for additional learning provision (see section 3 for the definition of this).
13. Subsection (1) clarifies that a learning difficulty or disability may, but need not, arise from a medical condition. Also, a person is not considered to have ALN because their home language is different to the language in which they are taught (subsection (4)).

#### **Section 3 - Additional learning provision**

14. Section 3 defines the meaning of 'additional learning provision' (ALP), which itself forms part of the definition of ALN in section 2. This definition is very similar to the definition of 'special educational provision' found in the 1996 Act but in particular widens the definition by reference to mainstream institutions in the further education sector in Wales (mainstream FEIs) because, unlike the SEN definition, it applies in relation to young people who are students at such institutions. Mainstream FEIs are defined in section 99.
15. The definition of ALP included in the Act has been made by reference to a child's age, with a slightly different definition operating in relation to children under the age of three (compared to children under the age of two in the 1996 Act). This reflects the fact that for children under the age of three there is no formal educational provision made by the state. Regulations under this section allow the Welsh Ministers to replace the references to the age of three with references to a different age.

## Cod ymarfer

### Adran 4 - Cod anghenion dysgu ychwanegol

16. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod ('y Cod') ar ADY ar eu gwefan. Gall hyn gynnwys canllawiau yngylch arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, ac yngylch materion eraill sy'n ymwnedd ag ADY a rhaid iddo gynnwys canllawiau ar ddyletswydd corff llywodraethu i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgybl neu fyfyrwr tra bo CDU yn cael ei lunio ar gyfer y person hwnnw (gweler adran 47(3)). Rhaid i'r personau a restrir yn adran 4(3) roi sylw i'r cod wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag ADY. Mae hyn yn golygu y dyliid glynw wrth y canllawiau yn y cod oni bai bod rheswm da dros wyro oddi wrthynt. Mae is-adran (4) yn cyfeirio at adran 153 o Ddeddf Addysg 2002 sydd, fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon (gweler Atodlen 1), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth gyllido darparwyr addysg feithrin nas cynhelir, ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr roi sylw i ganllawiau perthnasol yn y cod.
17. Caiff y cod hefyd osod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach mewn cysylltiad â materion penodol (gweler is-adran (5)) Caiff hefyd nodi'r hyn y mae'n ofynnol i awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol ei wneud er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn adrannau 7(1) ac 8(1) i roi sylw dyladwy i Gonfensiynau penodol y Cenhedloedd Unedig (gweler adrannau 7(4) ac 8(4)).
18. Mae gofynion penodol ar gyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol y mae rhaid i'r cod eu cynnwys (is-adran (6)). Rhaid iddo gynnwys un neu ragor o ffurfiau safonol ar gyfer CDU a'i gwneud yn ofynnol i'r ffurf briodol gael ei defnyddio. Rhaid iddo hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny wneud y canlynol o fewn cyfnod amser a nodir gan y cod, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau (y darperir ar eu cyfer yn y cod hefyd):
  - a. rhoi unrhyw hysbysiad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY; a
  - b. pan fo wedi ei benderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, llunio'r CDU a rhoi copi ohono.
19. Caiff y cod wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol, a gwneud darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed mewn perthynas â gofyniad a osodir o dan is-adran (5) neu ddarpariaeth a wneir o dan adran 7 neu 8.
20. Rhaid i'r Tribiwnlys roi sylw i'r cod pan fo'n berthnasol i unrhyw gwestiynau a gyfyd ar apêl o dan Ran 2 (is-adran (10)).

### Adran 5 - Y weithdrefn ar gyfer gwneud y cod

21. Mae adran 5 yn sicrhau bod ymgynghori ar y cod (neu god diwygiedig) a bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu arno cyn ei ddyroddi. Mae is-adran (1) yn rhestru'r cyrff cyhoeddus neu'r personau y mae rhaid ymgynghori â hwy ar god drafft neu god diwygiedig drafft, sy'n cynnwys unrhyw un arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol. Yna, ni ellir dyroddi cod arfaethedig na chod diwygiedig (a all fod wedi ei addasu o'r drafft yr ymgynghorwyd arno) oni bai bod y drafft wedi ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad. Os caiff y drafft ei gymeradwyo, rhaid iddo gael ei ddyroddi fel y cod. Daw'r cod i rym ar y diwrnod neu'r diwrnodau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn. Rhaid cyhoeddi'r cod ar wefan Gweinidogion Cymru (adran 4(11)).

## **Code of practice**

### **Section 4 - Additional learning needs code**

16. Section 4 requires the Welsh Ministers to issue and publish on their website a code on ALN. This can contain guidance about the exercise of functions under Part 2 of the Act, and about other matters relating to ALN and it must include guidance on a governing body's duty to take all reasonable steps to secure ALP for a pupil or student whilst an IDP is being prepared for that person (see section 47(3)). The persons listed in section 4(3) must have regard to the code when exercising their functions under this Act in relation to ALN. This means that the guidance in the code should be adhered to unless there is a good reason to depart from it. Subsection (4) signposts section 153 of the Education Act 2002 which, as amended by this Act (see Schedule 1), requires local authorities, in funding non-maintained providers of nursery education, to require the provider to have regard to relevant guidance in the code.
17. The code may also impose requirements on local authorities and governing bodies of maintained schools or FEIs in respect of specific matters (see subsection (5)). It may also set out what is required of a local authority and local health board to discharge their duties in sections 7(1) and 8(1) to have due regard to particular United Nations Conventions (see sections 7(4) and 8(4)).
18. There are certain requirements on governing bodies and local authorities which the code must include (subsection (6)). It must include one or more standard form or forms for an IDP and require that the appropriate form is used. It must also require those bodies to do the following within a period of time set by the code, subject to any exceptions (also provided for in the code):
  - a. give any notification that a child or young person does not have ALN; and
  - b. where it is determined that the child or young person has ALN, prepare and give a copy of the IDP.
19. The code may make different provision for different purposes or cases, and make transitory, transitional or saving provision in relation to both a requirement imposed under subsection (5) or provision made under section 7 or 8.
20. The Tribunal must have regard to the code where relevant to any questions arising on an appeal under Part 2 (subsection (10)).

### **Section 5 - Procedure for making the code**

21. Section 5 ensures that there is consultation on the code (or a revised code) and scrutiny by the National Assembly for Wales before it is issued. Subsection (1) lists the public bodies or persons who must be consulted on a draft code or a draft revised code, which includes anyone else the Welsh Ministers consider appropriate. Then, a proposed code or revised code (which may have been modified from the draft consulted upon) cannot be issued unless the draft has been laid before and approved by resolution of the Assembly. If the draft is approved, it must be issued as the code. The code comes into force on the day or days appointed by the Welsh Ministers in an order. The code must be published on the Welsh Ministers' website (section 4(11)).

## Cyfranogiad, confensiynau'r Cenhedloedd Unedig a mynediad at wybodaeth

### Adran 6 - Dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc

22. Mae adran 6 yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ac eraill sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 yn rhoi plant, eu rhieni a phobl ifanc wrth galon y penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt a wneir o dan y Ddeddf, gan eu galluogi felly i gymryd rhan mewn ffordd gwbl wybodus. Mae'n gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc roi sylw i'r materion a restrir. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, er enghraift, os yw corff llywodraethu yn llunio CDU ar gyfer plentyn o dan adran 14, y byddai angen iddo ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i'r plentyn a'i riant er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau megis pa ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ADY y plentyn yn galw amdani, rhoi cyfle iddynt wneud hynny ac ystyried eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau.

### Adrannau 7 ac 8 – Dyletswyddau i roi sylw i Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

23. Mae adrannau 7 ac 8 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff GIG (hynny yw, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG) sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 i roi sylw dyladwy i Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (adran 7) ac i Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (adran 8). Gweler is-adran (2) o bob adran i weld sut y mae pob Confensiwn i gael ei drin fel pe bai'n cael effaith at y dibenion hyn.
24. Nid yw'r dyletswyddau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff GIG roi ystyriaeth benodol i'r Confensiynau ar bob achlysur y caiff swyddogaeth ei harfer (gweler adrannau 7(3) ac 8(3)) a chaiff y cod wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd, ac yn yr achos hwnnw, mae'r ddyletswydd i gael ei dehongli yn unol â hynny (adrannau 7(4) ac 8(4)).

### Adran 9 - Cyngor a gwybodaeth

25. Mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y rheini sydd â buddiant yng ngweithrediad y system ADY newydd (gan gynnwys plant, rhieni plant a phobl ifanc) yn cael yr wybodaeth a'r cyngor am ADY a'r system y mae'r Ddeddf yn darparu ar ei chyfer. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor y darperir yr wybodaeth a'r cyngor mewn modd diduedd. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd roi gwybod i ysgolion ac eraill fod gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, gwasanaethau osgoi a datrys anghydfodau a gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael. Yn eu tro, mae dyletswydd ar gyrrff llywodraethu, pan roddir gwybod iddynt am y materion hyn, i wneud y materion yn hysbys i'w disgyblion, rhieni a chyfeillion achos disgyblion neu eu myfyrwyr (is-adrannau (4) a (5)). Caiff y cod ADY osod gofynion pellach sy'n ymwneud â chyngor a gwybodaeth (gweler adran 4(5)).

## **Participation, United Nations conventions and access to information**

### **Section 6 - Duty to involve and support children, their parents and young people**

22. Section 6 seeks to ensure that local authorities, governing bodies and others exercising functions under Part 2 place children, their parents and young people at the centre of decisions taken under the Act which directly affect them, and so enable them to participate in a fully informed way. It does this by requiring persons exercising functions under Part 2 in relation to a child or young person to have regard to the matters listed. In practice, this means that, for example, if a governing body is preparing an IDP for a child under section 14, it would need to provide information and support to the child and their parent to enable them to participate in decisions such as what ALP is called for by the child's ALN, give them an opportunity to do so and take into account their views, wishes and feelings.

### **Sections 7 and 8 – Duties to have regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child and the United Nations Convention of the Rights of Persons with Disabilities**

23. Sections 7 and 8 place duties on local authorities and NHS bodies (that is, Local Health Boards and NHS trusts) exercising functions under Part 2 to have due regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child (section 7) and to the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities (section 8). See subsection (2) of each section for how each Convention is to be treated as having effect for these purposes.
24. These duties do not require local authorities and NHS bodies to give specific consideration to the Conventions on each occasion that a function is exercised (see sections 7(3) and 8(3)) and the code may make provision about what is required in order to discharge the duty in which case, the duty is to be interpreted accordingly (sections 7(4) and 8(4)).

### **Section 9 - Advice and information**

25. Section 9 requires local authorities to ensure that those who have an interest in the operation of the new ALN system (including children, children's parents and young people) are provided with information and advice about ALN and the system provided for by the Act. In doing so local authorities must have regard to the principle that the information and advice is provided in an impartial manner. Local authorities must also make the availability of information and advice services, dispute avoidance and resolution services, and independent advocacy services, known to schools and others. In turn, governing bodies, when informed of these matters, have a duty to make them known to their pupils, pupils' parents and case friends or their students (subsections (4) and (5)). The ALN code may impose further requirements related to advice and information (see section 4(5)).

**Pennod 2 - Cynlluniau Datblygu Unigol  
Llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol  
Adran 10 - Cynlluniau datblygu unigol**

26. Mae adran 10 yn nodi beth yw cynllun datblygu unigol (CDU). Bydd y cynllun hwn yn sylfaen i'r system ar gyfer cynllunio a darparu darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant a phobl ifanc ag ADY fel y'i nodir yn y Ddeddf. Yn gyffredinol, bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY CDU, sy'n wahanol i'r system o dan Ddeddf 1996 nad oedd ond yn darparu ar gyfer datganiadau AAA ar gyfer y rheini ag anghenion mwy.
27. Rhaid i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ADY plentyn neu berson ifanc yn galw amdani gael ei nodi yn y CDU, yn ogystal â materion eraill y mae'n ofynnol eu cynnwys gan neu o dan Ran 2. Er enghraifft, pan fo penderfyniad y dylid darparu math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg, rhaid pennu hynny yn y CDU (adrannau 12(6), 14(5), 19(3), 21(4) a 40(6)). Mae hawl i apelio mewn cysylltiad â chynnwys penodol CDU, neu fethiant i gynnwys rhywbeth mewn CDU (adrannau 70 a 72), gan gynnwys mewn cysylltiad â'r disgrifiad o ADY y person a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir (gan gynnwys pa un a bennir y dylid darparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg). Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sydd ag ADY, rhaid cynnwys eu CDU yn eu cynllun addysg personol os oes un ganddynt (adran 16).
28. Rhaid i'r cod gynnwys o leiaf un CDU ar ffurf safonol a'i gwneud yn ofynnol bod y ffurf honno (neu os oes mwy nag un, y ffurf briodol) yn cael ei defnyddio (adran 4(6)). Caiff y cod gynnwys canllawiau yng'hylch y broses ar gyfer llunio CDU (gweler adran 4).

**Adran 11 - Dyletswydd i benderfynu: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach**

29. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, os ymddengys iddo y gall fod gan un o'i ddysgwyr (sy'n berson ifanc, yn achos sefydliad addysg bellach) ADY, neu os dygwyd hyn i'w sylw, benderfynu a oes gan y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw ADY. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r corff llywodraethu wneud hynny o dan amgylchiadau penodol (gweler is-adran (3)). Er enghraifft, pan na fo person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud amdano; pan fo'r corff llywodraethu wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY a'i fod wedi ei fodloni nad oes newid sylweddol wedi bod yn anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad; pan fo dysgwr (y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano) wedi ei gofrestru neu wedi ymrestru mewn mwy nag un sefydliad (gweler is-adran (3)(d) ac adran 30(1) a (2) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu atgyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol).
30. Pan fo'r corff llywodraethu yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, rhaid iddo hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Pan nad oes gan blentyn ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i ddeall yr hyn y mae hyn yn ei olygu, nid yw'r ddyletswydd i hysbysu'r plentyn yn gymwys (gweler adran 84). Fodd bynnag, pan fo gan blentyn gyfaill achos o dan adran 85, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu cyfaill achos y plentyn. Bydd y cod yn nodi terfyn amser ar gyfer hysbysu am y penderfyniadau hyn, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a bennir yn y cod (gweler adran 4(6)(a)).

## **Chapter 2 – Individual Development Plans**

### **Preparing and maintaining individual development plans**

#### **Section 10 - Individual development plans**

26. Section 10 sets out what an individual development plan (IDP) is. This plan will form the basis of the system for planning and providing ALP for children and young people with ALN as set out in the Act. Generally, all children and young people with ALN will have an IDP, in contrast to the system under the 1996 Act, which only provided for statements of SEN for those with greater needs.
27. The ALP called for by a child or young person's ALN must be set out in the IDP, as must other matters required to be included by or under Part 2. For example, where it is decided that a particular kind of ALP should be provided in Welsh, that must be specified in the IDP (sections 12(6), 14(5), 19(3), 21(4) and 40(6)). There are appeal rights in respect of certain content of an IDP, or a failure to include something in an IDP (sections 70 and 72), including in respect of the description of the person's ALN and the ALP set out (including whether it is specified that ALP should be provided in Welsh). For looked after children with ALN, their IDP must be incorporated into their personal education plan if they have one (section 16).
28. The code must contain at least one standard form IDP and require that it (or where more than one, the appropriate one) is used (section 4(6)). The code may include guidance about the process for preparing an IDP (see section 4).

#### **Section 11 - Duty to decide: maintained schools and further education institutions**

29. Section 11 requires the governing body of a maintained school or FEI, if it appears to it that one of its learners (who is a young person, in the case of an FEI) may have ALN or this has been brought to its attention, to decide whether that child or young person has ALN. However, the governing body does not have to do so in certain circumstances (see subsection (3)). For example, where a young person does not consent to the decision being made about them; where the governing body has previously decided whether the child or young person has ALN and is satisfied that there has been no material change in the child or young person's needs or new information that materially affects the decision; where a learner (for whom a local authority is responsible) is registered or enrolled at more than one institution (see subsection (3)(d) and section 30(1) and (2) which requires the governing body to refer the case to the local authority).
30. Where the governing body decides that the child or young person does not have ALN it must notify the child and their parent, or the young person, of the decision and the reasons for that decision. Where a child does not have sufficient understanding and intelligence to understand what this means, the duty to notify the child does not apply (see section 84). However, where a child has a case friend under section 85, the governing body must notify the child's case friend. The code will set a deadline for the notification of these decisions, subject to any exceptions specified in the code (see section 4(6)(a)).

31. Mae'r dyletswyddau yn yr adran hon yn gymwys mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n preswylio yn Lloegr pan fônt yn mynchyu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, ac eithrio pan fo cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (cynllun AIG) yn cael ei gynnal ar gyfer y dysgwr gan awdurdod lleol yn Lloegr o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Y rheswm dros hyn yw y bydd y cynllun hwnnw yn ymdrin â'r ddarpariaeth addysgol arbennig y mae eu hanghenion yn galw amdani.
32. Mae'r dyletswyddau yn yr adran hon yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol sy'n preswylio yn Lloegr, ond nid i blant eraill sy'n derbyn gofal (is-adran (5)). Gweler adrannau 17 i 19 am y dyletswyddau sy'n gymwys mewn achosion o'r fath.
33. Mae adran 44 yn delio â'r effaith ar y dyletswyddau yn yr adran hon os yw'r person yn dod yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.

### **Adran 12 - Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach**

34. Mae adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach lunio a chynnal CDU ar gyfer y dysgwyr hynny y maent wedi penderfynu bod ADY arnynt; neu yn achos corff llywodraethu ysgol a gynhelir, pan fo wedi cael ei gyfarwyddo i wneud hynny gan awdurdod lleol; neu yn achos corff llywodraethu sefydliad addysg bellach, pan fo wedi cytuno i gynnal cynllun a oedd yn cael ei gynnal o'r blaen gan awdurdod lleol, neu pan fo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu y dylai wneud hynny (gweler adran 36). Rhaid iddynt hefyd ystyried a ddylai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg a phan fônt yn penderfynu felly, rhaid iddynt bennu hyn yn y CDU.
35. Bydd y cod yn gosod terfyn amser y mae rhaid i'r corff llywodraethu lunio'r cynllun ynddo a rhoi copi ohono i'r plentyn neu'r person ifanc, ac os yw'r cynllun ar gyfer plentyn, i riant y plentyn (o dan adran 22), yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a bennir yn y cod (gweler adran 4(6)(b)).
36. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau penodol (a nodir yn is-adran (2)), nid yw'n ofynnol i gorff llywodraethu lunio a chynnal CDU ar gyfer dysgwr y mae wedi penderfynu bod arno ADY. Mae rhai o'r rhain yn cydnabod ei bod yn fwy priodol mewn rhai achosion (sy'n ymwneud yn gyffredinol ag anghenion mwy) i anghenion gael eu hystyried neu i ddarpariaeth gael ei sicrhau gan yr awdurdod lleol y mae'r person yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd pan fo'r corff llywodraethu yn ystyried y gall anghenion y dysgwr alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau. Yn yr achos hwnnw, rhaid i'r corff llywodraethu atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn iddo benderfynu arno o dan adran 13(1).
37. Yn yr un modd, mae hefyd ddarpariaeth i'r dyletswyddau beidio â bod yn gymwys pan fo'r dysgwr yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr a bod ei anghenion yn cael eu hystyried neu yr ymdrinnir â hwy gan yr awdurdod lleol hwnnw o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (is-adrannau (2)(c) a (d)). Unwaith eto, mae hyn yn debygol o fod mewn achosion o anghenion mwy pan fo awdurdod lleol yn debygol o fod mewn sefyllfa well i ddelio â'r mater.

31. The duties in this section apply in respect of children and young people resident in England where they attend the maintained school or FEI in Wales, except where an Education Health and Care plan (EHC plan) is being maintained for the learner by a local authority in England under the Children and Families Act 2014. This is because that plan will address the special educational provision that their needs call for.
32. The duties in this section apply to a child looked after by a local authority who is resident in England, but not to other looked after children (subsection (5)). See sections 17 to 19 for the applicable duties in such cases.
33. Section 44 deals with the effect upon the duties in this section if the person becomes subject to a detention order.

## **Section 12 - Duties to prepare and maintain plans: maintained schools and further education institutions**

34. Section 12 requires the governing bodies of maintained schools and FEIs to prepare and maintain an IDP for those learners they have decided have ALN; or in the case of a governing body of a maintained school, where it is directed to do so by a local authority; or in the case of a governing body of an FEI, where it has agreed to, or the Welsh Ministers have determined that it should, maintain a plan previously maintained by a local authority (see section 36). They must also consider whether any ALP should be provided in Welsh and where they decide that is the case, specify this in the IDP.
35. The code will set a deadline within which the governing body must prepare the plan and give a copy of it to the child or young person, and if the plan is for a child, to the child's parent (under section 22), subject to any exceptions specified in the code (see section 4(6)(b)).
36. However, in certain circumstances (set out in subsection (2)), a governing body is not required to prepare and maintain an IDP for a learner it has decided does have ALN. Some of these recognise that in some cases (generally involving greater needs) it is more appropriate for needs to be considered or provision secured by the local authority in whose area the person is. This includes instances where the governing body considers that the learner's needs may call for ALP that it would not be reasonable for the governing body to secure. In that case, the governing body must refer the matter to the relevant local authority for it to decide under section 13(1).
37. Similarly, there is also provision for the duties not to apply where the learner is in the area of a local authority in England and their needs are being considered or addressed by that local authority under the Children and Families Act 2014 (subsection (2)(c) and (d)). Again, this is likely to be in cases of greater needs where a local authority is likely to be better placed to deal with the matter.

38. Am nad yw addysg na hyfforddiant yn orfodol i bobl ifanc, mae'r dyletswyddau i lunio a chynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ifanc os nad yw'r person hwnnw yn cydsynio mwyach (ar unrhyw adeg) iddo gael ei lunio neu ei gynnal (is-adran 2(b)).
39. Caiff corff llywodraethu hefyd, mewn gwirionedd, fod o dan y ddyletswydd yn yr adran hon i gynnal CDU o ganlyniad i drosglwyddo dyletswydd i gynnal CDU (gweler adran 35 a'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 37 ynghylch trosglwyddo). Er enghraift, byddai hyn yn wir pan fo plentyn a chanddo CDU a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol yn symud i ysgol arall a gynhelir.
40. Pan fo corff llywodraethu yn cynnal CDU, rhaid iddo sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU hwnnw a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn Gymraeg pan fo hynny wedi ei bennu (is-adran (7)). Mae'r ddyletswydd wedi ei hamodi yn y ffordd hon oherwydd gall fod amgylchiadau pan na fo'n rhesymol bosibl ei darparu yn Gymraeg, er enghraift yn achos gwasanaethau arbenigol pan na fo'n bosibl cael ymarferydd sy'n siarad Cymraeg er gwaethaf ymdrechion i ddod o hyd i un.
41. Gweler adran 31 am yr amgylchiadau pan fo'r dyletswyddau yn yr adran hon yn peidio â bod yn gymwys. Hefyd, mae adran 44 yn delio â'r effaith ar y dyletswyddau yn yr adran hon os yw'r person yn dod yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.

### **Adran 13 - Dyletswydd i benderfynu: awdurdodau lleol**

42. Mae adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY pan fo'n cael ei dwyn i'w sylw neu pan ymddengys iddo y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Byddai awdurdod lleol yn arfer y swyddogaethau a nodir yn yr adran hon pan fo, er enghraift, penderfyniad ynghylch ADY plentyn neu berson ifanc wedi ei atgyfeirio gan gorff llywodraethu o dan adran 12 neu fod plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc wedi gwneud cais uniongyrchol i'r awdurdod lleol; neu fod Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwneud atgyfeiriad o dan adran 64.
43. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol i'r ddyletswydd i benderfynu (gweler is-adran (2)). Er enghraift, pan na fo person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud amdano; pan fo'r awdurdod lleol wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY a'i fod wedi ei fodloni nad oes newid sylweddol wedi bod yn anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad.
44. Yn gyffredinol, os yw'r person yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu'n fyfyrwr ymrestredig mewn sefydliad addysg bellach, y priod gorff llywodraethu fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan y person ADY o dan adran 11. Yn achos disgybl, nid oes gan yr awdurdod lleol y ddyletswydd i wneud hynny os yw wedi ei fodloni bod y cwestiwn yn cael ei benderfynu gan y corff llywodraethu o dan adran 11. Yn achos myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, dim ond os yw'r myfyriwr wedi ei gofrestru ddwywaith (gweler adran 30(1)-(2)) neu os yw'r corff llywodraethu wedi atgyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol o dan adran 12(2)(a) y mae'r awdurdod lleol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd.

38. As education or training is not compulsory for young persons, the duties to prepare or maintain an IDP cease to apply in respect of a young person if that person no longer consents (at any time) to its preparation or maintenance (subsection 2(b)).
39. A governing body may also, in effect, be under the duty in this section to maintain an IDP as a result of a transfer of a duty to maintain an IDP (see section 35 and the regulation power in section 37 about transfers). For example, this would be the case where a child with an IDP maintained by a school governing body moves to another maintained school.
40. Where a governing body maintains an IDP, it must secure the ALP set out in that IDP and take all reasonable steps to secure provision in Welsh where that is specified (subsection (7)). The duty is qualified in this way as there may be circumstances where it cannot reasonably be provided in Welsh, for example in the case of specialised services where it is not possible to obtain a Welsh speaking practitioner despite attempts to find one.
41. See section 31 for the circumstances in which the duties in this section cease to apply. Also, section 44 deals with the effect upon the duties in this section if the person becomes subject to a detention order.

### **Section 13 - Duty to decide: local authorities**

42. Section 13 requires a local authority to decide if a child or young person has ALN where it comes to its attention or appears to it that the child or young person may have ALN. A local authority would exercise the functions set out in this section where, for example, a decision about a child or young person's ALN has been referred by a governing body under section 12 or a child, a child's parent or a young person has made a direct request to the local authority; or a Local Health Board has made a referral under section 64.
43. However, there are certain exceptions to the duty to decide (see subsection (2)). For example, where a young person does not consent to the decision being made about them; where the local authority has previously decided whether the child or young person has ALN and is satisfied that there has been no material change in the child or young person's needs or new information that materially affects the decision.
44. Generally, if the person is a registered pupil of a maintained school or an enrolled student of an FEI, it will be for the respective governing body to determine whether the person has ALN under section 11. In the case of a pupil, the local authority does not have the duty to do so if satisfied that the question is being decided by the governing body under section 11. In the case of an FEI student, the local authority is only subject to the duty if the student is dual registered (see section 30(1)-(2)) or the governing body has referred the case to the local authority under section 12(2)(a).

45. Pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, rhaid iddo hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw (is-adran (3)). Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â'r gofyniad i hysbysu plentyn. Bydd y cod yn nodi terfyn amser ar gyfer hysbysu am y penderfyniad hwn, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a bennir yn y cod (gweler adran 4(6)(a)).
46. Mae'r ddyletswydd i benderfynu yn yr adran hon yn gymwys mewn cysylltiad â phlant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanyst, sef y rheini yn ei ardal (gan gynnwys os ydynt yn mynychu ysgol mewn ardal wahanol), ac eithrio plant sy'n derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf hon (gweler y diffiniad yn adran 15 a'r dyletswyddau yn adrannau 17 a 18 sy'n gymwys yn lle hynny). Gweler hefyd adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 ac adran 44 am yr effaith ar y dyletswyddau hyn pan fo'r person y maent yn ymwneud ag ef yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.

#### **Adran 14 - Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: awdurdodau lleol**

47. Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, mae adran 14 yn nodi'r amgylchiadau pan fo'n ofynnol iddo lunio a chynnal CDU a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU hwnnw; neu, os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu, neu os bydd yn mynychu, ysgol a gynhelir, caiff yr awdurdod lleol lunio CDU a chyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i gynnal y cynllun; neu gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i lunio a chynnal cynllun.
48. Mae'r dyletswyddau hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant, â phobl ifanc sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir neu'n fyfyrwyr ymrestredig mewn sefydliadau addysg bellach, ac â phobl ifanc eraill pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol llunio a chynnal cynllun o dan yr adran hon er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person am addysg neu hyfforddiant. Rhaid ystyried yr achosion pan fo hyn yn 'angenrheidiol' yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 46.
49. Mae'r adran hefyd yn nodi materion y gall fod angen eu nodi mewn CDU y mae awdurdod lleol yn ei lunio neu'n ei gynnal, sef:
  - a. rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a ddylai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg a phan fo'n penderfynu hynny, rhaid iddo bennu hynny yn y CDU (is-adran (5)); a,
  - b. os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai ei fod hefyd yn sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol (ar yr amod bod y person neu'r corff sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r sefydliad yn cydysynio, oni bai ei fod yn ysgol a gynhelir yng Nghymru); a/neu fwyd a llety, rhaid disgrifio'r 'ddarpariaeth arall' honno yn y cynllun a rhaid i'r awdurdod lleol ei sicrhau. Pan fo hyn yn gymwys, nid yw'r awdurdod lleol yn gallu cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol a gynhelir i lunio a/neu gynnal y CDU (is-adrannau (6) - (9)).
50. Gweler adrannau 35 (a'r pŵer cysylltiedig i wneud rheoliadau yn adran 37) a 43 am sefyllfaoedd eraill pan fo awdurdod lleol, mewn gwirionedd, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn yr adran hon i gynnal CDU, er enghraift pan fo plentyn a chanddo CDU a gynhelir gan awdurdod lleol arall yn symud i'w ardal.

45. Where the local authority decides that the child or young person does not have ALN it must notify the child and their parent, or the young person of the decision and the reasons for that decision (subsection (3)). See sections 84 and 85 in respect of the requirement to notify a child. The code will set a deadline for the notification of this decision, subject to any exceptions specified in the code (see section 4(6)(a)).
46. The duty to decide in this section applies in respect of children or young persons for whom the local authority is responsible, namely those in its area (including if they attend school in a different area), except for children who are looked after for the purposes of this Act (see the definition in section 15 and the duties in sections 17 and 18 which apply instead). See also section 562 of the Education Act 1996 and section 44 for the effect on these duties where the person to whom they relate is subject to a detention order.

#### **Section 14 - Duties to prepare and maintain plans: local authorities**

47. Where a local authority decides that a child or young person has ALN, section 14 sets out the circumstances where it is required to prepare and maintain an IDP and secure the ALP set out in that IDP; or, if the child or young person attends, or will attend, a maintained school, the local authority may prepare an IDP and direct the governing body of the school to maintain the plan; or direct the governing body of the school to prepare and maintain a plan.
48. These duties apply in relation to children, young people who are registered pupils at maintained schools or enrolled students at FEIs, and to other young people where the local authority decides it is necessary to prepare and maintain a plan under this section to meet the person's reasonable needs for education or training. Consideration of where it is so 'necessary' is to be undertaken in accordance with regulations made by the Welsh Ministers under section 46.
49. The section also sets out matters which may need to be set out in an IDP prepared or maintained by a local authority, namely:
  - a. the local authority must consider whether any ALP should be provided in Welsh and where it decides that is the case, so specify in the IDP (subsection (5)); and
  - b. if the local authority is satisfied that the reasonable needs of a child or young person for ALP cannot be met unless it also secures a place at a particular school or institution (provided the person or body responsible for admissions to the institution consents, unless it is a maintained school in Wales); and/or board and lodging, that 'other provision' must be described in the plan and must be secured by the local authority. Where this applies, the local authority is unable to direct the governing body of a maintained school to prepare and/or maintain the IDP. (subsections (6) - (9)).
50. See sections 35 (and the related regulation making power in section 37) and 43 for other situations in which a local authority is, in effect, subject to the duty in this section to maintain an IDP, for example where a child with an IDP maintained by another local authority moves into its area.

51. Pan fo'r awdurdod lleol yn cynnal CDU rhaid iddo sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ac unrhyw ddarpariaeth arall a ddisgrifir yn y cynllun a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn Gymraeg pan fo hynny wedi ei bennu (is-adran 10)). Mae'r ddyletswydd i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg wedi ei hamodi yn y ffordd hon oherwydd gall fod amgylchiadau pan na fo'n rhesymol bosibl ei darparu yn Gymraeg, er enghraift yn achos gwasanaethau neu driniaethau arbenigol pan na fo'n bosibl cael ymarferydd sy'n siarad Cymraeg er gwaethaf ymdrechion i ddod o hyd i un.
52. Mae'r dyletswyddau yn yr adran hon yn gymwys mewn cysylltiad â phlant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt, sef y rheini yn ei ardal (gan gynnwys os ydynt yn mynychu ysgol mewn ardal wahanol), ac eithrio plant sy'n derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf hon (gweler y diffiniad yn adran 15 a'r dyletswyddau yn adrannau 17 a 18 sy'n gymwys yn lle hynny). Gweler adran 31 am yr amgylchiadau pan fo'r dyletswyddau yn yr adran hon yn peidio â bod yn gymwys. Hefyd, gweler adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 ac adran 44 am yr effaith ar y dyletswyddau hyn pan fo'r person y maent yn ymwneud ag ef yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.

**Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

**Adrannau 15 i 19 - Termau allweddol, Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau**

**Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Dyletswydd i atgyfeirio mater i awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn, Dyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn sy'n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol, Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

53. Mae adrannau 15 i 19 yn cynnwys darpariaethau ynghylch ADY sydd i fod yn gymwys yn achos plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae gan blant sy'n derbyn gofal gynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys cynllun addysg personol ('CAP') yn rhinwedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn achos plant o'r fath (yn ddarostyngedig i eithriadau - gweler adran 15(2)), mae'r awdurdod sy'n gofalu am y plentyn i fod yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad am ADY, cynnal CDU a'i gynnwys yn CAP y plentyn. Yn unol â hynny, nid yw'r dyletswyddau cyfatebol (yn adrannau 12 - 14) ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir y caiff y plentyn ei mynychu, ac ar yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn ei ardal, yn gymwys. O ganlyniad, mae'r gwaith cynllunio addysgol, gan gynnwys cynllunio darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn sy'n derbyn gofal sydd ag ADY, yn cael ei wneud gan un corff, sef yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn, ac mae wedi ei nodi mewn un ddogfen, yn hytrach na chael ei rannu o bosibl rhwng ddwy ddogfen ac o bosibl rhwng dau gorff hefyd. Mae'r dyletswyddau o dan y Ddeddf sy'n gymwys i bobl ifanc eraill hefyd yn gymwys i bobl ifanc sy'n derbyn gofal neu a fu gynt yn derbyn gofal.
54. Nid yw'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn sy'n derbyn gofal ADY yn gymwys os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr (adran 18(2)(c)). Os nad yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol, er enghraift gall plentyn fod wedi ei leoli yn yr Alban, nid oes dyletswydd i lunio a chynnal CDU (adran 19(2)). Y rheswm dros hyn yw y gall gallu awdurdod lleol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plentyn sy'n byw y tu allan i Gymru fod yn gymharol gyfyngedig mewn sawl achos. Fodd bynnag, gall y plentyn fod o fewn y system addysg leol a bod â hawlogaethau odani. Er enghraift, os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, gall yr awdurdod hwnnw fod yn gyfrifol am y plentyn o dan adran 24 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (mae Rhan 3 o'r Ddeddf honno yn delio â phlant a phobl ifanc yn Lloegr ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau).

51. Where the local authority maintains an IDP it must secure the ALP and any other provision described in the plan and take all reasonable steps to secure provision in Welsh where that is specified (subsection (10)). The duty to secure ALP in Welsh is qualified in this way as there may be circumstances where it cannot reasonably be provided in Welsh, for example in the case of specialised services or treatments where it is not possible to obtain a Welsh speaking practitioner despite attempts to find one.
52. The duties in this section apply in respect of children or young persons for whom the local authority is responsible, namely those in its area (including if they attend school in a different area), except for children who are looked after for the purposes of this Act (see the definition in section 15 and the duties in sections 17 and 18 which apply instead). See section 31 for the circumstances in which the duties in this section cease to apply. Also, see section 562 of the Education Act 1996 and section 44 for the effect on these duties where the person to whom they relate is subject to a detention order.

#### **Additional learning provision for looked after children**

#### **Sections 15 to 19 - Key terms, Amendments to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Duty to refer a matter to a local authority that looks after a child, Duty to decide whether a looked after child has additional learning needs, Duties to prepare and maintain plans for looked after children**

53. Sections 15 to 19 contain provisions on ALN which are to apply in the case of children looked after by a local authority in Wales. Generally, looked after children have care and support plans which include a personal education plan ('PEP') by virtue of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. In the case of such children (subject to exceptions – see section 15(2)), the authority that looks after the child is to be responsible for any decision on ALN, maintaining an IDP and incorporating it into the child's PEP. Accordingly, the equivalent duties (in sections 12 – 14) on the governing body of a maintained school the child may attend and on the local authority in whose area the child is, do not apply. The result is that the educational planning, including planning for the provision of ALP of the looked after child who has ALN, is done by one body, namely the local authority looking after the child, and is set out in one document, rather than potentially being split between two documents and potentially also two bodies. For young persons who are looked after or were formerly looked after, the duties under the Act apply as they do to other young persons.
54. The duty to decide whether a looked after child has ALN does not apply if the child is in the area of a local authority in England (section 18(2)(c)). If the child is not in the area of a local authority, for example a child may be placed in Scotland, there is no duty to prepare and maintain an IDP (section 19(2)). This is because a local authority's ability to secure ALP for a child living outside Wales may be relatively limited in many cases. However, the child may be within the local education system and have entitlements under it. For example, if the child is in the area of a local authority in England, that authority may be responsible for the child under section 24 of the Children and Families Act 2014 (Part 3 of that Act deals with children and young people in England with special educational needs or disabilities).

55. Mae adran 15 yn nodi ystyr termau allweddol a ddefnyddir yn y Ddeddf sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol. Nid yw person sy'n derbyn gofal at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf os yw'r person yn berson ifanc, person sy'n cael ei gadw'n gaeth (a ddiffinnir yn adran 39(1)) neu o fewn categori o blentyn sy'n derbyn gofal a ragnodir mewn rheoliadau.
56. Mae adran 16 yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel bod CAP fel arfer yn elfen o'r cynllun gofal a chymorth a lunnir ar gyfer y rheini sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf honno. At hynny, mae adran 16 yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel bod rhaid cynnwys unrhyw CDU a gynhelir o dan adran 19 yn y CAP yn achos plant sy'n derbyn gofal ac sydd o'r oedran ysgol gorfodol ac yn iau ac sydd ag ADY.
57. Mae adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir y mae plentyn sy'n derbyn gofal yn ei mynychu, neu'r awdurdod lleol y mae plentyn sy'n derbyn gofal yn ei ardal, roi gwybod i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn os daw'n ymwybodol y gall fod gan y plentyn ADY.
58. Mae adran 18 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn i benderfynu a oes gan y plentyn ADY sy'n cyfateb i'r ddyletswydd yn adran 13 mewn perthynas â phlant a phobl ifanc nad ydynt yn derbyn gofal. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Gweler adrannau 84 a 85 mewn perthynas â'r gofyniad yn is-adran (3) i hysbysu plentyn am benderfyniad nad oes gan y plentyn ADY.
59. Mae adran 19 yn gosod dyletswyddau ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn (ar yr amod bod y plentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru) i lunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol sy'n cyfateb i'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn adran 14(2) mewn perthynas â phlant a phobl ifanc nad ydynt yn derbyn gofal. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chynnal y cynllun ei hun: ni chaiff gyfarwyddo ysgol a gynhelir y mae'r plentyn sy'n derbyn gofal yn ei mynychu i wneud hynny.
60. Mae adrannau 35 (a gweler y pŵer cysylltiedig i wneud rheoliadau yn adran 37) a 43 yn nodi sefyllfaoedd eraill pan fo awdurdod lleol, mewn gwirionedd, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 19 i gynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Mae adran 31 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fo'r dyletswyddau yn yr adran hon yn peidio â bod yn gymwys. Os daw plentyn sy'n derbyn gofal yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth, mae'r dyletswyddau yn yr adrannau hyn yn peidio hefyd am fod y person yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf (adran 15). Ceir y dyletswyddau sy'n gymwys yn lle hynny yn adrannau 40 - 42. Mae adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 ac adran 44 yn nodi'r effaith ar ddyletswyddau awdurdodau lleol o dan adrannau 17 - 19 pan fo'r person y maent yn ymwneud ag ef yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.

55. Section 15 sets out the meaning of key terms used in the Act which relate to children who are looked after by a local authority. A person who is looked after for the purposes of Part 6 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 is not looked after for the purposes of the Act if the person is a young person, a detained person (defined in section 39(1)) or within a category of looked after child prescribed in regulations.
56. Section 16 amends the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 so that a PEP is usually an element of the care and support plan prepared for those who are looked after by a local authority under that Act. Furthermore, section 16 amends the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 so that any IDP maintained under section 19 must be incorporated into the PEP in the case of looked after children of compulsory school age and below who have ALN.
57. Section 17 requires the governing body of a maintained school which a looked after child attends, or the local authority in whose area a looked after child is, to inform the local authority which looks after the child if it becomes aware that the child may have ALN.
58. Section 18 imposes a duty on the local authority which looks after a child to decide whether the child has ALN which is equivalent to the duty in section 13 in relation to children and young people who are not looked after. This duty does not apply if the child is in the area of a local authority in England. See sections 84 and 85 in relation to the requirement in subsection (3) to notify a child of a decision that the child does not have ALN.
59. Section 19 imposes on the local authority which looks after a child (provided that the child is in the area of a local authority in Wales), duties to prepare and maintain individual development plans which are equivalent to the duties on local authorities in section 14(2) in relation to children and young people who are not looked after. However, the local authority must prepare and maintain the plan itself: it cannot direct a maintained school attended by the looked after child to do so.
60. Sections 35 (and see the related regulation making power in section 37) and 43 set out other situations in which a local authority is, in effect, subject to the duty in section 19 to maintain an IDP for a looked after child. Section 31 provides for the circumstances in which the duties in this section cease to apply. If a looked after child becomes a detained person, the duties in these sections also cease because the person ceases to be a looked after child for the purposes of the Act (section 15). The duties that apply instead are found in sections 40 – 42 . Section 562 of the Education Act 1996 and section 44 set out the effect on the local authority duties under sections 17 – 19 where the person to whom they relate is subject to a detention order.

## **Adran 20 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol: Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG**

61. Mae adran 20 yn galluogi awdurdod lleol ac (os yw'n llunio neu'n cynnal CDU ar gyfer y person ifanc) gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach i ofyn i gorff GIG (a ddiffinnir yn adran 99(1) fel Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG, ond gweler hefyd y pŵer yn adran 99(8)) a oes unrhyw driniaeth neu unrhyw wasanaeth (a ddarperir fel arfer fel rhan o'r gwasanaeth iechyd cynhwysfawr) sy'n debygol o fod o fudd o ran ymdrin ag ADY plentyn neu berson ifanc. Cyn gwneud atgyfeiriad o'r fath, rhaid i'r corff atgyfeirio drafod y mater â'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a bod wedi ei fodloni bod gwneud yr atgyfeiriad er lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc (is-adran (3) ac, mewn cysylltiad â phlentyn, gweler adrannau 84 a 85). Os gwneir atgyfeiriad, rhaid i'r corff GIG ystyried y mater ac os yw'n nodi unrhyw driniaeth neu wasanaeth o'r fath, rhaid iddo sicrhau ei bod yn cael ei ddarparu neu ei fod yn cael ei ddarparu, penderfynu a ddylai'r driniaeth gael ei darparu neu a ddylai'r gwasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg ac os felly dylai gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu neu fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.
62. Mae adran 21 yn delio â chamau gweithdrefnol cysylltiedig, gan gynnwys y canlyniadau o ran CDU y person.

## **Adran 21 - Cynlluniau datblygu unigol: Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG**

63. Mae adran 21 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG roi gwybod i'r corff sydd wedi gwneud atgyfeiriad o dan adran 20, ac os yw'n wahanol, y corff sy'n cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan sylw, am ganlyniad yr atgyfeiriad (is-adrannau (1) a (2)). Rhaid iddo wneud hynny o fewn y cyfnod amser sydd i gael ei ragnodi mewn rheoliadau, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau rhagnodedig (is-adran (10)). Mewn achosion pan fo triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol wedi ei nodi, unwaith y rhoddir gwybod iddo, rhaid i'r corff sy'n cynnal y cynllun datblygu unigol gynnwys y driniaeth neu'r gwasanaeth fel darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y cynllun fel darpariaeth sydd i gael ei chyflenwi gan y corff GIG (is-adran (3)). Os penderfynwyd y dylai'r ddarpariaeth gael ei darparu yn Gymraeg, rhaid i hyn hefyd gael ei bennu yn y cynllun (is-adran (4)). Mae'r corff GIG, nid y corff llywodraethu na'r awdurdod lleol, yna o dan ddyletswydd i sicrhau'r ddarpariaeth a dim ond gyda chytundeb y corff GIG neu ar gais y corff GIG y caniateir ei newid neu ei dileu o'r cynllun ar adolygiad o dan adran 23 neu 24. Os gwneir cais felly, rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais (is-adrannau (5) - (7)). Gan fod unrhyw driniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol a nodir ac a gynhwysir mewn CDU yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, yna gall fod apêl mewn perthynas â'r driniaeth neu'r gwasanaeth, neu'r ffaith nad yw'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU (gweler adran 70).
64. Pan fo'r Tribiwnlys yn gorchymyn i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynhwysir yn y cynllun o dan yr adran hon gael ei diwygio, nid yw'n ofynnol i'r corff GIG sicrhau'r ddarpariaeth ddiwygiedig oni bai ei fod yn cytuno i wneud hynny (is-adran (9)). Os nad yw'n cytuno, mae'r corff sy'n cynnal y CDU o dan ddyletswydd i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir (adrannau 12(7), 14(10), 19(7)).

## **Section 20 - Additional learning provision: Local Health Boards and NHS Trusts**

61. Section 20 enables a local authority and (if it is preparing or maintaining an IDP for the young person) the governing body of an FEI to ask an NHS body (defined in section 99(1) as a Local Health Board or NHS trust, but see also the power in section 99(8)) whether there is any treatment or service (normally provided as part of the comprehensive health service) which is likely to be of benefit in addressing the ALN of a child or young person. Before making such a referral, the referring body must discuss the matter with the child, the child's parent or the young person and be satisfied that making the referral is in the best interests of the child or young person (subsection (3) and, in respect of a child, see sections 84 and 85). If a referral is made, the NHS body must consider the matter and if it identifies any such treatment or service, it must secure its provision, decide whether it should be provided in Welsh and if so take all reasonable steps to secure its provision in Welsh.
62. Section 21 deals with related procedural steps, including the consequences for the person's IDP.

## **Section 21 - Individual development plans: Local Health Boards and NHS Trusts**

63. Section 21 requires an NHS body to inform the body that has made a section 20 referral, and if different, the body that maintains an individual development plan for the child or young person concerned, of the outcome of the referral (subsections (1) and (2)). It must do so within the period of time to be prescribed in regulations, subject to any prescribed exceptions (subsection (10)). In cases where a relevant treatment or service is identified, once informed, the body maintaining the individual development plan must include the treatment or service as ALP within the plan as provision to be delivered by the NHS body (subsection (3)). If it was decided that the provision should be provided in Welsh, this must also be specified in the plan (subsection (4)). The NHS body, not the governing body or local authority, is then under a duty to secure the provision, which may only be changed or removed from the plan on a review under section 23 or 24 and with the agreement or at the request of the NHS body. If so requested, the governing body or local authority must comply with the request (subsections (5) - (7)). As any relevant treatment or service identified and included in an IDP is ALP, then there can be an appeal in relation to it, or the fact that it is not in the IDP (see section 70).
64. Where the Tribunal orders a revision to the ALP included in the plan under this section, the NHS body is not required to secure the revised provision unless it agrees to do so (subsection (9)). If it does not agree, the body maintaining the IDP is under a duty to secure the ALP set out (sections 12(7), 14(10), 19(7)).

## Gwybodaeth am gynlluniau

### Adran 22 - Darparu gwybodaeth am gynlluniau datblygu unigol

65. Mae adran 22 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu sy'n llunio CDU roi copi o'r cynllun i'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc ac os yw'r plentyn yn derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol a benodir o dan adran 99 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os yw awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn dod yn gyfrifol am gynnal cynllun yn lle awdurdod neu gorff arall, rhaid iddo roi gwybod i'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, ddarparu copi o'r cynllun i'r swyddog adolygu annibynnol.
66. Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â'r gofynion i roi copïau o'r cynllun i blentyn ac i hysbysu plentyn.

## Adolygu cynlluniau

### Adran 23 - Adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol

67. Mae adran 23 yn darparu ar gyfer adolygiadau o CDU ar gyfer plentyn nad yw'n derbyn gofal, oni bai bod y plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru, neu berson ifanc. Rhaid i adolygiad gael ei gynnal cyn diwedd pob cyfnod adolygu. Mae'r cyfnod adolygu cyntaf yn flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir copi o CDU o dan adran 22. Fel arfer, mae cyfnodau adolygu dilynol yn flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad yn y cyfnod adolygu blaenorol (a) pan roddwyd copi o gynllun diwygiedig mewn perthynas â'r cyfnod adolygu blaenorol hwnnw, neu, (b) os na chafodd y cynllun ei ddiwygio yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol, pan roddwyd hysbysiad o benderfyniad i beidio â diwygio'r cynllun mewn perthynas â'r cyfnod adolygu hwnnw. O ganlyniad, dylai'r cynllun gael ei adolygu o leiaf unwaith mewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Mae hefyd ddarpariaeth ar gyfer achosion pan na fo cynllun diwygiedig nac hysbysiad nad yw unrhyw ddiwygiad i gael ei wneud yn cael ei roi yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol (is-adran (4)). Mae is-adran (6) yn darparu i'r ddyletswydd gael ei thrin fel pe bai wedi ei bodloni mewn sefyllfaoedd pan fo corff ac eithrio'r corff sy'n cynnal y cynllun yn ei adolygu mewn gwirionedd. Bwriedir i hyn leihau'r posibilrwydd o adolygiadau cyfochrog er enghraifft, fel nad yw'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol adolygu cynllun ar adeg pan yw diwedd y cyfnod adolygu yn nesáu ond bod y Tribiwnlys newydd ystyried yr hyn a ddylai fod yn y cynllun ac wedi gorchymyn i'r awdurdod lleol ei ddiwygio yn unol â hynny.
68. Rhaid i CDU hefyd gael ei adolygu os yw plentyn neu riant plentyn, neu berson ifanc, yn gofyn i'r cynllun gael ei adolygu oni bai bod yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu yn ystyried nad oes angen gwneud hynny (is-adran (8)), er enghraifft pan fo'n amlwg nad oes newidiadau sylweddol wedi bod ers y tro diwethaf i'r CDU gael ei adolygu; ac os yw corff GIG y mae'n ofynnol iddo sicrhau darpariaeth o dan adran 20 yn gofyn am adolygiad (is-adran (7)). Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i'r cynllun gael ei adolygu ac yna ei ddiwygio ar unrhyw adeg (is-adran (9)). Bydd hyn yn galluogi i'r CDU gael ei adolygu'n ddi-oed pan fydd amgylchiadau yn newid neu yn unol â dyddiadau adolygu a nodir yn y CDU. Os caiff y CDU ei ddiwygio o dan unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2 neu ddeddfwriaeth a wneir odani, rhaid rhoi copi o'r cynllun diwygiedig i'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc (is-adran (11)). Os penderfynir peidio â diwygio'r CDU yn dilyn adolygiad o dan unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2 neu ddeddfwriaeth a wneir odani, rhaid hysbysu'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau drosto (is-adran (10)). Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â chais am adolygiad gan blentyn a'r gofynion i roi copïau o'r cynllun i blentyn ac i hysbysu plentyn.

## **Information about plans**

### **Section 22 - Provision of information about individual development plans**

65. Section 22 requires a local authority or governing body which prepares an IDP to give a copy of the plan to the child, the child's parents or the young person and if the child is looked after, the independent reviewing officer appointed under section 99 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. If a local authority or governing body becomes responsible for maintaining a plan in place of another authority or body, it must inform the child, the child's parents, or the young person and in the case of a looked after child, provide a copy of the plan to the independent reviewing officer.
66. See sections 84 and 85 in respect of the requirements to give copies of the plan to, and to notify, a child.

## **Review of plans**

### **Section 23 - Review and revision of individual development plans**

67. Section 23 provides for reviews of an IDP for a child who is not looked after, unless the child is in the area of a local authority in England and attending a maintained school in Wales, or a young person. A review must take place before the end of each review period. The first review period is a year starting with the date on which a copy of an IDP is given under section 22. Usually, subsequent review periods are a year starting with the date in the previous review period when (a) a copy of a revised plan was given in relation to that previous review period, or, (b) if the plan was not revised during the previous review period, notice of a decision not to revise the plan was given in relation to that review period. The result is that the plan should be reviewed at least once in any 12 month period. There is also provision for cases where neither a revised plan nor notice that no revision is to be made is given during the previous review period (subsection (4)). Subsection (6) provides for the duty to be treated as met in situations where a body other than that which is maintaining it, in effect, reviews it. This is to minimise the scope for parallel reviews for example, so that the governing body of a school is not obliged to review a plan at a time when the end of the review period is approaching but the Tribunal has just considered what should be in the plan and ordered the local authority to revise it accordingly.
68. An IDP must also be reviewed at the request of a child or a child's parent, or a young person unless considered unnecessary by the local authority or governing body (subsection (8)), for example where there have clearly been no material changes since the last time that the IDP was reviewed; and at the request of an NHS body required to secure provision under section 20 (subsection (7)). This section also permits the plan to be reviewed and then revised at any time (subsection (9)). This will enable prompt review of the IDP when circumstances change or in accordance with review dates set out in the IDP. If the IDP is revised under any provision of Part 2 or legislation made under it, a copy of the revised plan must be provided to the child and their parent, or the young person (subsection (11)). If it is decided not to revise the IDP following a review under any provision of Part 2 or legislation made under it, the child, their parent, or the young person must be notified of the decision and reasons for it (subsection (10)). See sections 84 and 85 in respect of a review request by a child and the requirements to give copies of the plan to, and to notify, a child.

69. Mae adran 24 yn delio ag adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan yr adran hon (is-adran (12)).

#### **Adran 24 - Adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

70. Mae adran 24 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal sy'n cyfateb i'r hyn sydd yn adran 23, oni bai bod y plentyn sy'n derbyn gofal yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac yn mynchy uysgol a gynhelir yng Nghymru ac yn yr achos hwnnw, mae gan y corff llywodraethu swyddogaethau adolygu o dan adran 23.
71. Yn ychwanegol at ofynion yr adran hon, mae gan awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag adolygu CDU y plentyn. Dyma'r swyddogaethau mewn perthynas ag adolygu cynllun gofal a chymorth o dan ac yn rhinwedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (gweler adran 83 o'r Ddeddf honno fel y'i diwygir gan adran 16 o'r Ddeddf). Am fod rhaid cynnwys unrhyw CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal a gynhelir o dan adran 19 mewn unrhyw gynllun addysg personol, sydd yn ei dro yn rhan o'r cynllun gofal a chymorth, mae'r swyddogaethau hynny sy'n ymwneud ag adolygiadau yn cwmpasu'r CDU.

#### **Adran 25 - Perthynas cynlluniau datblygu unigol â dogfennau tebyg eraill**

72. Mae adran 25 yn galluogi i'r prosesau o lunio, adolygu a diwygio CDUau ar gyfer plentyn neu berson ifanc gael eu halinio â'r prosesau o lunio, adolygu a diwygio dogfennau eraill ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw, megis unrhyw gynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol.

#### **Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu**

73. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawliau apelio i blant, eu rhieni a phobl ifanc mewn perthynas â materion penodol y darperir ar eu cyfer yn Rhan 2 (gweler adrannau 70 a 72). Dim ond yn erbyn awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach, ond nid yn erbyn cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, y gellir dwyn apêl. Er mwyn i blant, eu rhieni a phobl ifanc allu herio penderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu ysgolion, mae adrannau 26, 27 a 32 yn darparu dulliau i'w penderfyniadau a'u cynlluniau gael eu hailstyried gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y disgyl (h.y. yr awdurdod lleol y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei ardal) ar lefel awdurdod lleol. Yn ei dro, mae hawliau apelio cyfatebol mewn cysylltiad â'r camau hynny gan yr awdurdod lleol (adran 70). Mae hyn yn osgoi sefyllfa pan fo'r ysgolion yn gorfol rheoli trafodion y Tribiwnlys eu hunain ac yn caniatáu i anghydfodau gael eu datrys ar lefel fwy priodol. Ar gyfer disgylion sydd yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, mae adrannau 14, 26, 27, 29, 32, 68 a 69 yn gymwys gydag addasiadau (gweler adran 87) – yn y bôn, mae'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol yn gyfrifol am y penderfyniadau ailystyried hyn, ond ni all gymryd drosodd ei hun y cyfrifoldeb am gynnal CDU.

69. Section 24 deals with reviews for looked after children not covered by this section (subsection (12)).

### **Section 24 - Review and revision of individual development plans for looked after children**

70. Section 24 makes provision in relation to looked after children equivalent to that in section 23, unless the looked after child is in the area of a local authority in England and attending a maintained school in Wales, in which case, the governing body has review functions under section 23.
71. In addition to the requirements of this section, a local authority looking after a child has other functions related to the review of the child's IDP. These are the functions in relation to the review of a care and support plan under and by virtue of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (see section 83 of that Act as amended by section 16 of the Act). Since any IDP for a looked after child maintained under section 19 must be incorporated into any personal education plan, which in turn is part of the care and support plan, those functions related to reviews cover the IDP.

### **Section 25 - Relationship of individual development plans to other similar documents**

72. Section 25 enables alignment of the processes of preparing, reviewing and revising IDPs for a child or young person with the preparation, review and revision of other documents for that child or young person, such as any health and social care plans.

### **Local authority reconsideration of governing body decisions and plans**

73. The Act gives appeal rights to children, their parents and young persons in relation to particular matters provided for in Part 2 (see sections 70 and 72). Appeals can only be brought against local authorities and governing bodies of FEIs, but not against governing bodies of maintained schools. In order for children, their parents and young people to be able to challenge school governing body decisions and plans, sections 26, 27 and 32 provide mechanisms for their decisions and plans to be reconsidered by the local authority responsible for the pupil (i.e. the local authority in whose area the child or young person is) at local authority level. In turn, there are equivalent appeal rights in respect of those local authority actions (section 70). This avoids the schools having to manage Tribunal proceedings themselves and allows for disputes to be resolved at a more appropriate level. For pupils who are in the area of a local authority in England, sections 14, 26, 27, 29, 32, 68 and 69 apply with modification (see section 87) – essentially, the local authority that maintains the school is responsible for these reconsideration decisions, but cannot itself take over responsibility for maintaining an IDP.

**Adran 26 - Ailstyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 11(1)**

74. Mae adran 26 yn galluogi plentyn neu ei riant, neu'r person ifanc, i ofyn i awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ailstyried penderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir sef bod gan un o'i ddisgyblion ADY neu nad oes gan un o'i ddisgyblion ADY. Pan ofynnir felly, rhaid i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad ei hun ynghylch y mater; bydd y penderfyniad hwnnw wedyn yn disodli penderfyniad y corff llywodraethu a bydd penderfyniad blaenorol y corff llywodraethu yn peidio â chael effaith. Cyn gwneud penderfyniad, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu. Mae'r adran hon yn darparu dull effeithiol i blant a'u rhieni, a phobl ifanc, herio penderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru, yn absenoldeb hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y cyrff hyn. Gellir wedyn herio penderfyniad yr awdurdod lleol drwy apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 70. Mae adran 29 yn delio â'r amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn yr adran hon yn gymwys. Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â chais gan blentyn. Gweler hefyd baragraff 73 uchod i gael rhagor o wybodaeth.
75. Mae'r penderfyniad a wneir o dan yr adran hon yn cael ei drin fel pe bai'n un o dan adran 13(1) (is-adran (4)). Mae hyn yn golygu, os y penderfyniad yw nad oes gan y disgybl ADY, fod y gofyniad i hysbysu yn adran 13(3) yn gymwys ac os y penderfyniad yw bod gan y disgybl ADY, fod y ddyletswydd yn adran 14(2) ynghylch llunio a chynnal CDUau yn gymwys.

**Adran 27 - Ailstyriaeth gan awdurdodau lleol o gynlluniau a gynhelir o dan adran 12**

76. Mae adran 27 yn galluogi plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc i ofyn i awdurdod lleol (sy'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc) ailstyried CDU a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gyda golwg ar ei ddiwygio. Cyn penderfynu pa un ai i ddiwygio'r cynllun ai peidio, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu.
77. Pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu nad yw'n ofynnol diwygio'r CDU rhaid iddo hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw a rhoi copi o'r hysbysiad hwnnw i'r corff llywodraethu (is-adrannau (4) a (5)). Pan fo awdurdod lleol yn diwygio CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r cynllun diwygiedig i'r corff llywodraethu (is-adran (7)) ac mae adran 23(11) yn ei gwneud yn ofynnol i gopi gael ei roi i'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc. Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â chais gan blentyn a'r gofynion i hysbysu plentyn neu i roi copi o CDU i blentyn.
78. Pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu ei bod yn ofynnol diwygio'r CDU, caiff gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gynnal y CDU diwygiedig; fel arall caiff yr awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU ei hun. Gall y sefyllfa gyntaf ddigwydd pan fo'r awdurdod lleol yn ystyried bod cynnwys y CDU o'r fath fel y gellir disgwyl yn rhesymol i'r corff llywodraethu gyflenwi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd yn ddo; gall yr ail sefyllfa ddigwydd pan na fyddai'n ddisgwyliad rhesymol i'r corff llywodraethu.
79. Mae'r sefyllfa ynghylch diwygiadau yn gymwys yn yr un modd yn achos awdurdod lleol sy'n diwygio cynllun o ganlyniad i'r Tribiwnlys orchymyn iddo wneud hynny.

## **Section 26 - Reconsideration by local authorities of decisions under section 11(1)**

74. Section 26 enables a child or their parent, or the young person, to request that a local authority which is responsible for the child or young person reconsiders the decision of a maintained school governing body that one of its pupils has or does not have ALN. Where requested, the local authority must make its own decision on the issue; that decision will then replace the decision of the governing body, and the previous decision made by the governing body will cease to have effect. Before making a decision, the local authority must inform the governing body of the request and invite representations from the governing body. This section provides children and their parents, and young people, with an effective means of challenging the decision of the governing body of a maintained school in Wales, in the absence of a right of appeal to the Tribunal against these bodies. The local authority's decision is then challengeable by way of an appeal to the Tribunal under section 70. Section 29 deals with the circumstances in which the duty in this section does not apply. See sections 84 and 85 in respect of a request by a child. See also paragraph 73 above for further information.
75. The decision made under this section is treated as one under section 13(1) (subsection (4)). This means that if the decision is that the pupil does not have ALN, the requirement to notify in section 13(3) applies and if the decision is that the pupil has ALN, the duty in section 14(2) about preparing and maintaining IDPs applies.

## **Section 27 - Reconsideration by local authorities of plans maintained under section 12**

76. Section 27 enables a child, child's parent or young person to ask a local authority (which is responsible for a child or young person) to reconsider an IDP maintained by the governing body of a maintained school with a view to revising it. Before deciding whether or not to revise the plan, the local authority must inform the governing body of the request and invite representations from the governing body.
77. Where the local authority decides that the IDP does not require revision it must notify the child and their parent, or the young person, of the decision and the reasons for that decision and give a copy of that notification to the governing body (subsections (4) and (5)). Where a local authority revises an IDP, the local authority must give a copy of the revised plan to the governing body (subsection (7)) and section 23(11) requires that a copy be given to the child, their parent, or young person. See sections 84 and 85 in respect of a request by a child and the requirements to notify, or give a copy of an IDP to, a child.
78. Where the local authority decides that the IDP requires revision, it may direct the governing body to maintain the revised IDP; alternatively, the local authority may take on responsibility for maintaining the IDP itself. The former may occur where the local authority considers that the content of the IDP is such that the governing body can reasonably be expected to deliver the ALP it contains; the latter where this would not be a reasonable expectation of the governing body.
79. The position regarding revisions applies equally to the case of a local authority revising a plan as a result of the Tribunal ordering it to do so.

80. Mae'r adran hon yn darparu dull effeithiol i blant, eu rhieni, a phobl ifanc herio cynnwys y CDU a roddwyd yn ei le ar eu cyfer gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, yn absenoldeb yr hawl i apelio yn erbyn y cyrff hyn (gweler adran 70 sy'n rhoi hawliau apelio sy'n ymwneud â chamau awdurdod lleol). Gweler hefyd baragraff 73 uchod i gael rhagor o wybodaeth.
81. Mae adran 29 yn delio â'r amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn yr adran hon yn gymwys.

**Adran 28 - Dyletswydd awdurdodau lleol i benderfynu pa un ai i gymryd drosodd gynlluniau cyrff llywodraethu ai peidio**

82. Mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol (sy'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc) benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU mewn ymateb i gais iddo wneud hynny. Gall y cais gael ei gyflwyno gan gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg bellach – er enghraift pan na fo'r corff llywodraethu yn credu mwyach fod cynnal y cynllun a chyflenwi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o fewn ei allu – neu gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc – er enghraift pan na fo'n credu bod gallu'r corff llywodraethu o ran cyflenwi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol gan y plentyn neu'r person ifanc wedi ei brofi. Pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU, mae'r CDU yn cael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal gan yr awdurdod o dan adran 14. Gellir herio penderfyniad yr awdurdod lleol i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU drwy apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 70.
83. Pan fo corff llywodraethu yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc, a gwahodd sylwadau. Pan fo plentyn, ei riant neu berson ifanc yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu a gwahodd sylwadau. Rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r corff llywodraethu, a'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Gweler adrannau 84 a 85, mewn cysylltiad â chais gan blentyn, am y gofynion i hysbysu plentyn ac i roi gwybod iddo.
84. Mae adran 29 yn delio â'r amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn yr adran hon yn gymwys.

**Adran 29 - Amgylchiadau pan nad yw'r dyletswyddau yn adrannau 26(2), 27(2) ac 28(3) yn gymwys**

85. Mae adran 29 yn nodi, pan fo awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad o'r blaen o dan adran 26(2), 27(2) neu 28(3) mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc a'i fod wedi ei fodloni nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod o ran anghenion y person na gwybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad, nad oes unrhyw ddyletswydd i wneud penderfyniad newydd o dan yr adran o dan sylw. Yn ogystal, nid oes unrhyw ddyletswydd yn gymwys o dan yr adrannau hyn pan fo plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal.
86. Ar gyfer plentyn sydd wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal, mae'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yn dod yn gyfrifol am gynnal y cynllun (adran 35(9) a (10)) ac mae ganddo swyddogaethau adolygu (adran 24) oni bai bod y plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr (gweler adran 87).
87. Gweler adran 562 o Ddeddf 1996 ac adran 44 am yr effaith ar y dyletswyddau hyn pan fo'r plentyn neu'r person ifanc wedi dod yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.

80. This section provides children, their parents, and young people with an effective means of challenging the content of the IDP put in place for them by the governing body of a maintained school, in the absence of a right of appeal against these bodies (see section 70 which gives rights of appeal relating to local authority actions). See also paragraph 73 above for further information.
81. Section 29 deals with the circumstances in which the duty in this section does not apply.

### **Section 28 - Local authority duty to decide whether to take over governing body plans**

82. Section 28 requires a local authority (which is responsible for a child or young person) to decide whether it should take over responsibility for maintaining an IDP in response to a request to do so. The request may be made by a governing body of a school or FEI – for example where the governing body no longer believes that maintaining the plan and delivering the ALP is within its capability – or by a child, a child’s parent or young person – for example where they do not believe the governing body has proven capable of delivering the ALP required by the child or young person. Where the local authority does decide to take over responsibility for the IDP, the IDP is treated as maintained by the authority under section 14. The decision of the local authority not to take over responsibility for an IDP is challengeable by appeal to the Tribunal under section 70.
83. Where the request is from a governing body, the local authority must notify the child, their parent, or the young person, and invite representations. Where the request is from a child, their parent or a young person, the local authority must inform the governing body and invite representations. The local authority must notify the governing body, and the child, their parent, or the young person, of the decision and the reasons for that decision. See sections 84 and 85, in respect of a request by a child, for the requirements to notify and inform a child.
84. Section 29 deals with the circumstances in which the duty in this section does not apply.

### **Section 29 - Circumstances in which the duties in sections 26(2), 27(2) and 28(3) do not apply**

85. Section 29 sets out that where a local authority has previously made a decision under section 26(2), 27(2) or 28(3) in relation to a child or young person and it is satisfied that there has been no material change in the person’s needs or new information that would materially affect the decision, there is no duty to make a new decision under the respective section. In addition, no duty applies under these sections where a child becomes looked after.
86. For a child who has become looked after, the local authority looking after the child becomes responsible for maintaining the plan (section 35(9) and (10)) and has review functions (section 24) unless the child is in the area of a local authority in England ( see section 87).
87. See section 562 of the 1996 Act and section 44 for the effect on these duties where the child or young person has become subject to a detention order.

### **Adran 30 - Cofrestru neu ymrestru mewn mwy nag un sefydliad**

88. Mae adran 30, ynghyd ag adran 11(3)(d), yn sicrhau pan fo plentyn neu berson ifanc yn mynchyu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru ac ysgol neu sefydliad addysg bellach arall (nad oes angen iddi neu iddo fod yng Nghymru o reidrwydd) a bod awdurdod lleol yn gyfrifol am y person, yr awdurdod lleol hwnnw sy'n gyfrifol am benderfynu a oes gan y person ADY, ac am lunio a/neu gynnal cynllun ar ei gyfer ac nid yw'r dyletswyddau cyfatebol ar gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn gymwys. Rhaid i'r corff llywodraethu atgyfeirio materion o'r fath i'r awdurdod lleol.

### **Peidio â chynnal cynlluniau**

#### **Adran 31 - Peidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol**

89. Mae adran 31 yn nodi'r amgylchiadau pan fo dyletswydd benodol corff llywodraethu neu awdurdod lleol i lunio neu gynnal CDU yn peidio. Mae'r amgylchiadau hyn yn cwmpasu:

- pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr ymrestredig neu pan fo'r plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal (yn achos cyrff llywodraethu),
- pan fo'r awdurdod lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, neu pan fo plentyn yn dod, neu'n peidio â bod, yn blentyn sy'n derbyn gofal (at ddibenion Rhan 2),
- pan fo plentyn sy'n derbyn gofal yn peidio â bod yn ardal unrhyw awdurdod lleol,
- pan fo'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes ADY gan y plentyn neu'r person ifanc mwyach,
- yn achos person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach, pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 46 nad oes angen cynnal y cynllun mwyach i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant.

90. Cyn penderfynu peidio â chynnal CDU oherwydd ei fod yn credu nad oes ADY gan y plentyn neu'r person ifanc mwyach neu, yn achos person ifanc, nad oes angen ei gynnal mwyach, rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, y person ifanc ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol, am y penderfyniad arfaethedig. Rhaid iddo hefyd hysbysu'r un personau pan fydd wedi gwneud ei benderfyniad (ynghyd â'i resymau). Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir hefyd roi gwybod i'r personau hynny am eu hawl i ofyn i awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad o dan adran 32.

91. Mae adran 35 yn delio â sefyllfaoedd pan fo dyletswydd i gynnal CDU wedi ei throsglwyddo i gorff arall (gweler hefyd y pŵer i wneud rheoliadau ynghylch trosglwyddo yn adran 37). Mae adran 562 o Ddeddf 1996 ac adran 44 yn delio â'r effaith ar ddyletswyddau yn y Ddeddf (gan gynnwys dyletswyddau i gynnal CDU) pan fo plentyn neu berson ifanc yn dod yn ddarostyngedig i orchymyn cadw. Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â'r gofynion i hysbysu plentyn.

## **Section 30 - Registration or enrolment at more than one institution**

88. Section 30 together with section 11(3)(d) ensures that where a child or young person attends a maintained school or FEI in Wales and another school or FEI (which need not necessarily be in Wales) and a local authority is responsible for the person, responsibility for determining if the person has ALN, and preparing and/or maintaining a plan for them lies with that local authority and the equivalent duties on the governing body of the school or FEI do not apply. The governing body must refer such matters to the local authority.

## **Ceasing to maintain plans**

### **Section 31 - Ceasing to maintain individual development plans**

89. Section 31 sets out the circumstances in which a governing body's or local authority's particular duty to prepare or maintain an IDP ceases. These circumstances cover where:
- the child or young person ceases to be a registered pupil or enrolled student or the child becomes looked after (in the case of governing bodies),
  - the local authority ceases to be responsible for the child or young person, or a child becomes or ceases to be looked after (for the purposes of Part 2),
  - a looked after child ceases to be in the area of any local authority,
  - the governing body or local authority decides that the child or young person no longer has ALN,
  - in the case of a young person not at a maintained school or FEI, the local authority decides in accordance with regulations made under section 46 that it is no longer necessary to maintain the plan to meet the young person's reasonable needs for education or training.
90. Before deciding to cease to maintain an IDP because it believes the child or young person no longer has ALN or, in the case of a young person, that it is no longer necessary to maintain it, the governing body or local authority must notify the child, child's parent, young person and in the case of a looked after child, the independent reviewing officer, of the proposed decision. It must also notify the same persons when it has made its decision (together with reasons). A governing body of a maintained school must also inform those persons of their right to request a local authority reconsideration of the decision under section 32.
91. Section 35 deals with situations where a duty to maintain an IDP is transferred to another body (see also the regulation power about transfers in section 37). Section 562 of the 1996 Act and section 44 deal with the effect on duties in the Act (including duties to maintain an IDP) where a child or young person becomes subject to a detention order. See sections 84 and 85 in respect of the requirements to notify a child.

### **Adran 32 - Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau cyrff llywodraethu o dan adran 31**

92. Mae adran 32 yn galluogi plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc i ofyn i awdurdod lleol (sy'n gyfrifol am y person) ailystyried penderfyniad corff llywodraethu ysgol i beidio â chynnal CDU. Bydd y cyfnod ar gyfer gwneud y cais hwn yn cael ei nodi mewn rheoliadau. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai'r ddyletswydd i gynnal y CDU beidio a hysbysu (gyda'i resymau) y corff llywodraethu, y plentyn a'i riant, neu'r person ifanc yn unol â hynny. Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â chais gan blentyn a'r gofynion i hysbysu plentyn.
93. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylid cynnal y CDU, rhaid i'r corff llywodraethu barhau i'w gynnal. Pan fo'r awdurdod lleol yn cytuno y dylai'r CDU beidio â chael ei gynnal, mae modd apelio yn erbyn ei benderfyniad o dan adran 70 a rhaid penderfynu ar yr apêl neu raid bod yr amser ar gyfer dwyn apêl wedi dod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno, cyn y gall y corff llywodraethu beidio â chynnal y CDU (gweler adran 33).
94. Gweler hefyd baragraff 73 uchod i gael rhagor o wybodaeth.

### **Adran 33 - Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynlluniau er mwyn caniatáu ailystyriaeth neu apêl**

95. Mae adran 33 yn sicrhau, pan fo penderfyniad wedi ei wneud y dylai CDU beidio â chael ei gynnal, ei fod yn parhau i gael ei gynnal hyd nes bod y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc wedi cael y cyfreithiol i ddefnyddio ei holl opsiynau ar gyfer apelio. Felly, ni chaiff corff llywodraethu ysgol a gynhelir beidio â chynnal y CDU oni bai bod y cyfnod a ragnodir ar gyfer gofyn am ailystyriaeth gan yr awdurdod lleol o dan adran 32 wedi dod i ben heb i gais gael ei gyflwyno. Os cyflwynir cais yn ystod y cyfnod hwnnw, ni chaiff corff llywodraethu ysgol a gynhelir beidio â chynnal y CDU hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi gwneud ei benderfyniad a bod y cyfnod ar gyfer apelio yn ei erbyn wedi dod i ben, neu pan fo apêl wedi ei dwyn o fewn y cyfnod hwnnw, y penderfynwyd yn llawn arni. Yn yr un modd, ni chaiff corff llywodraethu sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol beidio â chynnal y CDU hyd nes bod y cyfnod ar gyfer dwyn apêl yn dod i ben heb i apêl gael ei dwyn neu, pan fo apêl wedi ei dwyn yn ystod y cyfnod hwnnw, y penderfynwyd yn llawn arni. Mae'r cyfnod ar gyfer dwyn apêl i gael ei nodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 75.

### **Adran 34 - Cynllun datblygu unigol ar ôl pen-blwydd person ifanc yn 25 oed**

96. Mae adran 34 yn sicrhau, os yw person ifanc a chanddo CDU (sy'n cael ei lunio neu ei gynnal) yn cyrraedd 25 oed, nad yw'r ddyletswydd i'w lunio neu ei gynnal yn peidio ar unwaith, ond yn hytrach ei bod yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd fel y'i diffinnir yn is-adran (2). Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am y CDU a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd yn ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## **Section 32 - Reconsideration by local authorities of decisions of governing bodies under section 31**

92. Section 32 enables a child, a child's parent or a young person to request that a local authority (which is responsible for the person) reconsiders a school governing body's decision to cease to maintain an IDP. The period during which this request can be made will be set out in regulations. The local authority must decide whether the duty to maintain the IDP should cease and notify (with reasons) the governing body, the child and their parent, or the young person accordingly. See sections 84 and 85 in respect of a request by a child and the requirements to notify a child.
93. If the local authority decides that the IDP should be maintained, the governing body must continue to maintain it. Where the local authority agrees that the IDP should cease to be maintained, its decision is appealable under section 70 and the appeal must be determined or the time for bringing an appeal must have expired with no appeal being made, before the governing body can cease to maintain the IDP (see section 33).
94. See also paragraph 73 above for further information.

## **Section 33 - Limitation on ceasing to maintain plans to allow reconsideration or appeal**

95. Section 33 ensures that where there has been a decision that an IDP should cease to be maintained, it continues to be maintained until the child, the child's parent or young person has had the opportunity to exhaust their appeal options. So the governing body of a maintained school may not cease to maintain the IDP unless the period prescribed for requesting reconsideration by the local authority under section 32 has ended without a request being made. If a request is made in that period, the governing body of a maintained school may not cease to maintain the IDP until the local authority has made its decision and the period for appealing it has ended, or where an appeal is brought within that period, it has been fully determined. Similarly, a governing body of a FEI or a local authority may not cease to maintain the IDP until the period for an appeal to be made ends without an appeal being brought or, where an appeal is brought in that period, it has been fully determined. The period for bringing an appeal is to be set out in regulations made under section 75.

## **Section 34 - Individual development plan after a young person's 25th birthday**

96. Section 34 ensures that if a young person with an IDP (being prepared or maintained) becomes 25, the duty to prepare or maintain it does not immediately cease, rather it continues until the end of the academic year as defined in subsection (2). This means that the body responsible for the IDP and the ALP it contains must continue to deliver the ALP until the end of the academic year.

## Trosglwyddo cynlluniau

### Adran 35 - Trosglwyddo dyletswyddau i gynnal cynlluniau

97. Mae adran 35 yn trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU yn y sefyllfaoedd amrywiol a nodir. Yn gyffredinol, pan fo plentyn neu berson ifanc a chanddo CDU yn trosglwyddo rhwng ysgolion a gynhelir, neu rhwng ysgol a gynhelir a sefydliad addysg bellach, neu'n symud o un ardal awdurdod lleol i ardal arall, mae'r CDU yn trosglwyddo/symud gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Yn yr un modd, mae'n delio â phlentyn a chanddo CDU ac sy'n dod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu'n peidio â derbyn gofal mwyach.

### Adran 36 - Cais i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach

98. Mae adran 36 yn caniatáu i awdurdod lleol ofyn i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach ddod yn gyfrifol am gynnal CDU ar gyfer person ifanc, pan fo'r person ifanc hwnnw wedi ymrestru yn y sefydliad addysg bellach a bod yr awdurdod lleol yn cynnal y CDU ar ei gyfer ar hyn o bryd. Os nad yw'r corff llywodraethu yn cytuno â'r cais o fewn y cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau, mae adran 36 yn caniatáu i'r awdurdod lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt hwy benderfynu a ddylai'r corff llywodraethu gynnal y cynllun. Os yw'r corff llywodraethu yn cytuno i'r cais, neu os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylai gynnal y cynllun, yna mae o dan ddyletswydd i wneud hynny (gweler adran 12(4)).

### Adran 37 - Rheoliadau yngylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol

99. Mae adran 37 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach mewn rheoliadau ar y materion a restrir yn is-adran (1) sydd oll yn ymwneud â throsglwyddo dyletswyddau i gynnal CDUau. Mae hyn yn cynnwys darparu ar gyfer trosglwyddiadau pellach (ac eithrio'r rhai yn adran 35) rhwng y cyrff a chanddynt gyfrifoldeb am CDUau o dan y Ddeddf o dan amgylchiadau penodol a darpariaeth sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol sy'n gofyn i sefydliadau addysg bellach gymryd drosodd CDU ac atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru iddynt hwy benderfynu arno (o dan adran 36).

### Pwerau i gyfarwyddo cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

#### Adran 38 - Pŵer awdurdod lleol i gyfarwyddo cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

100. Pan na fo awdurdod lleol yn cynnal ysgol a gynhelir, mae adran 38 yn ei atal rhag defnyddio unrhyw un neu ragor o'i bwerau i gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol honno heb ymgynghori â'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.

### Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth (adrannau 39 – 45)

101. Mae adran 39 yn darparu'r diffiniadau ar gyfer yr adrannau hyn, mae adrannau 40 – 43 yn nodi dyletswyddau ar awdurdodau lleol sy'n ymwneud â "phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth" ac mae adran 44 yn delio â chymhwysod dyletswyddau yn y Ddeddf i bersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth a'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth ac eithrio mewn llety ieuengtiaid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae adran 45 yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i gymhwysod swyddogaethau penodol gydag addasiad neu hebddo mewn cysylltiad â phlant neu bobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

## **Transfer of plans**

### **Section 35 - Transfer of duties to maintain plans**

97. Section 35 transfers the duty to maintain an IDP in the various situations set out. Generally, where a child or young person with an IDP transfers between maintained schools, or between a maintained school and an FEI, or moves from one local authority area to another, the IDP transfers/moves with them. Similarly, it deals with a child with an IDP becoming looked after or ceasing to be looked after.

### **Section 36 – Request to transfer plan to governing body of further education institution**

98. Section 36 permits a local authority to request the governing body of an FEI to become responsible for maintaining an IDP for a young person, where that young person is enrolled at the FEI and the local authority currently maintains an IDP for him or her. If the governing body does not agree with the request within the period prescribed in regulations, section 36 permits the local authority to refer the matter to the Welsh Ministers for them to decide whether the governing body should maintain the plan. If the governing body agrees to the request, or if the Welsh Ministers determine that it should maintain the plan, then it is under a duty to do so (see section 12(4)).

### **Section 37 - Regulations about transfer of individual development plans**

99. Section 37 enables the Welsh Ministers to make further provision in regulations on the matters listed in subsection (1) which are all about transfers of duties to maintain IDPs. This includes providing for further transfers (besides those in section 35) between the bodies with responsibility for IDPs under the Act in specific circumstances and provision related to local authorities requesting FEIs to take over an IDP and referring the matter to the Welsh Ministers for them to determine (under section 36).

## **Powers to direct governing bodies of maintained schools**

### **Section 38 - local authority power to direct governing bodies of maintained schools**

100. Where a local authority does not maintain a maintained school, section 38 prevents it from using any of its powers to direct the governing body of that school without having consulted the local authority which does maintain the school.

## **Additional learning provision for detained persons (sections 39 – 45)**

101. Section 39 provides the definitions for these sections, sections 40 – 43 set out duties on local authorities relating to “detained persons” and section 44 deals with the application of duties in the Act to both detained persons and those detained otherwise than in relevant youth accommodation in Wales or England. Section 45 contains a regulation power to apply particular functions with or without modification in respect of children or young persons subject to a detention order and detained in a hospital under Part 3 of the Mental Health Act 1983.

102. Mae cymhwysyo dyletswyddau yn y Ddeddf i blant neu bobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw yn dibynnau ble y caint eu cadw'n gaeth. Os yw'r person yn "berson sy'n cael ei gadw'n gaeth", hynny yw ei fod yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr (er enghraifft, mewn coleg diogel), yna mae'r dyletswyddau amrywiol ar gyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yn peidio â bod yn gymwys ond mae'r dyletswyddau a nodir yn adrannau 40 i 43 yn gymwys yn lle hynny. Mae'r dyletswyddau hyn yn debyg i ddyletswyddau eraill yn y Ddeddf, ond maent wedi eu haddasu yn sgil y sefyllfa cadw'n gaeth. Er enghraifft, dim ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am faterion ADY (nid cyrff llywodraethu) yn ystod y cyfnod o gadw'r person yn gaeth a'u dyletswydd yw trefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol, yn hytrach na sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU. Mae hyn yn ystyried y posibilrwydd na allai'r awdurdod lleol sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol benodol am fod y person yn cael ei gadw'n gaeth.
103. Os yw plentyn neu berson ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety arall (er enghraifft mewn carchar), yna nid yw dyletswyddau amrywiol ar gyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yn gymwys yn ystod y cyfnod o gadw'r person yn gaeth mewn llety o'r fath (gweler adran 562 o Ddeddf 1996 ac adran 44(3)-(7)). Y rheswm dros hyn yw bod addysg mewn llety ieuencid perthnasol yn wahanol iawn i'r addysg yn y carchar (er enghraifft, mae'n orfodol mewn llety ieuencid perthnasol ond nid yw'n orfodol yn y carchar).

### **Adran 39 - Ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" a thermau allweddol eraill**

104. Mae adran 39 yn diffinio "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" fel plentyn neu berson ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr (ac yn achos darpariaethau sy'n gymwys pan gaiff person ei ryddhau, mae'n cynnwys person a oedd, yn union cyn ei ryddhau, yn berson a oedd yn cael ei gadw'n gaeth). Mae'r diffiniadau o fod yn ddarostyngedig i "gorchymyn cadw" ("detention order") a "llety ieuencid perthnasol" ("relevant youth accommodation") yn adran 562 o Ddeddf 1996:
- mae "gorchymyn cadw" ("detention order") yn orchymyn a wneir gan lys, neu'n orchymyn adalw a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (ond nid y gorchmynion na'r awdurdodiadau a grybwylir yn adran 562(2) a (3) o Ddeddf 1996);
  - ystyr "llety ieuencid perthnasol" yw llety cadw ieuencid (o fewn yr ystyr a roddir i "youth detention accommodation" gan adran 107(1) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000), ac nid yw'n sefydliad i droseddwyr ifanc, nac yn rhan o sefydliad o'r fath, sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cadw personau sy'n 18 oed ac yn hŷn yn gaeth.
105. Mae'r adran hon hefyd yn diffinio termau allweddol cysylltiedig eraill a ddefnyddir yn y Ddeddf, gan gynnwys "awdurdod cartref" (sy'n cyfeirio at y diffiniad o "home authority" yn adran 562J o Ddeddf 1996). Mae awdurdod cartref yn awdurdod lleol a nodir mewn perthynas ag unigolyn yn unol â'r diffiniad.. Yn ogystal, mae'n caniatâu i reoliadau gael eu gwneud sy'n cymhwysyo, gydag addasiadau, agweddau penodol ar y diffiniad o "awdurdod cartref" y darperir ar ei gyfer yn adran 562J o Ddeddf 1996.

102. The application of duties in the Act to children or young people who are subject to a detention order depends upon where they are detained. If the person is a “detained person”, that is detained in relevant youth accommodation in Wales or England (for example, in a secure college), then various duties on governing bodies and local authorities cease to apply but the duties set out in sections 40 to 43 apply instead. These duties are similar to other duties in the Act, but adapted in light of the detention situation. For example, only local authorities are responsible for ALN matters (not governing bodies) during the detained person’s detention and their duty is to arrange appropriate ALP, rather than secure the ALP set out in the IDP. This takes account of the possibility that the local authority might not be able to secure the particular ALP because the person is detained.
103. If a child or young person subject to a detention order is detained in other accommodation (for example in a prison), then various duties on governing bodies and local authorities do not apply during detention in such accommodation (see section 562 of the 1996 Act and section 44(3)-(7)). This is because education in relevant youth accommodation is fundamentally different to that in prisons (for example, it is compulsory in the former, but not in the latter).

### **Section 39 - Meaning of “detained person” and other key terms**

104. Section 39 defines “detained person” as a child or young person who is subject to a detention order and detained in relevant youth accommodation in Wales or England (and in the case of provisions applying on release, covers someone who was detained immediately before release). The definitions of being subject to a “detention order” and “relevant youth accommodation” are in section 562 of the 1996 Act:
  - a “detention order” is an order made by a court, or an order of recall made by the Secretary of State (but not the orders or authorisations mentioned in section 562(2) and (3) of the 1996 Act);
  - “relevant youth accommodation” is youth detention accommodation (within the meaning given by section 107(1) of the Powers of Criminal Courts (Sentencing) Act 2000), and is not a young offender institution, or part of such an institution, that is used wholly or mainly for the detention of persons aged 18 and over.
105. This section also defines other related keys terms used in the Act, including “home authority” (which refers to the definition in section 562J of the 1996 Act). A home authority is a local authority identified in relation to an individual in accordance with the definition. In addition, it allows for regulations to be made which apply, with modifications, particular aspects of the definition of “home authority” provided for in section 562J of the 1996 Act.

#### **Adran 40 - Dyletswydd i lunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth**

106. Diben adran 40 yw sicrhau, pan fo'n cael ei ddwyn i sylw awdurdod cartref yng Nghymru, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall, y gall fod gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY ac nad yw CDU yn cael ei gadw ar ei gyfer o dan adran 42 fod rhaid i'r awdurdod cartref benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Os yw'r awdurdod cartref yn penderfynu bod gan y person ADY, rhaid iddo benderfynu, yn unol â rheoliadau o dan adran 45, a fydd angen cynnal CDU ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw unwaith y bydd wedi ei ryddhau er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.
107. Er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, mae dyletswydd wedi ei gosod ar yr awdurdod cartref i wahodd y person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuencid perthnasol i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad ac, os oes angen, i fod yn rhan o'r gwaith o lunio CDU. Rhaid rhoi copi o'r CDU i'r plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'i riant, neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, a'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuencid perthnasol.
108. Rhaid i'r awdurdod cartref hysbysu'r plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'i riant, neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, a'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuencid perthnasol, os yw'n penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY neu'n penderfynu na fyddai cynnal CDU yn angenrheidiol pan fydd yn cael ei ryddhau. Rhaid i'r awdurdod cartref ddarparu esboniad o'r rhesymau dros ei benderfyniad. Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â'r gofynion i hysbysu plentyn neu i roi copïau o gynllun i blentyn.

#### **Adran 41 - Amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn adran 40(2) yn gymwys**

109. Mae adran 41 yn nodi'r eithriadau i'r dyletswyddau ar awdurdodau cartref yn adran 40(2) mewn perthynas â phenderfynu a oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY ac a fydd angen CDU ar gyfer y person pan fydd yn cael ei ryddhau. Nid yw'r dyletswyddau hyn yn gymwys os nad yw person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cydsynio i'r penderfyniad o ran a oes ganddo ADY gael ei wneud neu i gynllun gael ei lunio. Nid yw'r dyletswyddau hyn yn gymwys ychwaith os yw'r awdurdod cartref wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY a'i fod wedi ei fodloni nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, ac nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw neu'r penderfyniad na fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person pan fydd yn cael ei ryddhau.

### **Section 40 - Duty to prepare individual development plans for detained persons**

106. The purpose of section 40 is to ensure that where it is brought to the attention of, or otherwise appears to, a home authority in Wales that a detained person may have ALN and an IDP is not being kept for them under section 42 the home authority must decide whether the child or young person has ALN. If the home authority decides that the person does have ALN, it must decide in accordance with regulations under section 45 whether it will be necessary to maintain an IDP for that child or young person once they have been released from detention in order to meet their reasonable needs for education or training.
107. In order to make this decision, there is a duty placed on the home authority to invite the person in charge of the relevant youth accommodation to participate in the decision-making process, and if necessary in the preparation of an IDP. A copy of the IDP must be given to the detained child and their parent, or the detained young person, and the person in charge of the relevant youth accommodation.
108. The home authority must notify the detained child and their parent, or the detained young person, and the person in charge of the relevant youth accommodation, if it decides that the child or young person does not have ALN or that maintaining an IDP would not be necessary when he or she is released. The home authority must provide an explanation of the reasons for their decision. See sections 84 and 85 in respect of the requirements to notify, or give copies of a plan to, a child.

### **Section 41 - Circumstances in which the duty in section 40(2) does not apply**

109. Section 41 sets out the exceptions to the duties on home authorities in section 40(2) in relation to deciding whether a detained person has ALN and whether an IDP will be needed for when the person is released. These duties do not apply if a detained young person does not consent to the decision as to whether he or she has ALN being made or to a plan being prepared. Nor do they apply if the home authority has previously decided whether the child or young person has ALN and is satisfied that the person's needs have not changed materially since that decision was made, and that there is no new information which materially affects that decision or the one that it will not be necessary to maintain an IDP for the person when released.

## **Adran 42 - Dyletswydd i gadw cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth**

110. Os oedd gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth CDU yn union cyn iddo gael ei gadw'n gaeth, neu fod un yn cael ei lunio gan yr awdurdod cartref yn ystod y cyfnod o gadw'r person yn gaeth yn barod ar gyfer ei ryddhau (o dan adran 40), oni bai bod y person yn berson ifanc nad yw'n cydsynio iddo, mae adran 42 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod cartref i gadw'r CDU tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuencnid perthnasol. Mae hyn yn wahanol i'r ddyletswydd i gynnal CDU, sy'n golygu ei bod yn ofynnol, ymhllith pethau eraill, i'r corff sy'n ei gynnal sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir ynddo. Mewn cyferbyniad â hynny, mae cadw CDU yn golygu ei gadw yn unig (ond nid ei adolygu) a threfnu i 'ddarpariaeth ddysgu ychwanegol briodol' gael ei darparu i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth tra bo'n cael ei gadw'n gaeth felly (is-adran (8)). Darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU, neu os nad yw hynny'n ymarferol, ddarpariaeth addysgol sy'n cyfateb mor agos â phosibl iddi, neu, pan na fo'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y cynllun yn briodol mwyach, ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r awdurdod cartref yn ystyried ei bod yn briodol (is-adran (9)).
111. Ni fydd awdurdod cartref ond yn gyfrifol am gadw CDU a gynhelid o'r blaen gan gorff neu awdurdod arall unwaith y caiff y ffaith bod CDU yn cael ei gynnal ei dwyn i sylw'r awdurdod cartref (is-adran (5)).
112. Rhaid i'r awdurdod cartref roi gwybod i'r plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'i riant, neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, os yw CDU yn cael ei gadw a rhoi copi o'r CDU i'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuencnid perthnasol (is-adrannau (6) - (7)). Gweler adrannau 84 a 85 mewn cysylltiad â'r gofyniad i roi gwybod i blentyn.

## **Adran 43 - Rhyddhau person sy'n cael ei gadw'n gaeth**

113. Mae adran 43 yn sicrhau, pan fydd person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cael ei ryddhau a bod awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ar y dyddiad rhyddhau, fod yr awdurdod lleol hwnnw yn gyfrifol am gynnal cynllun a oedd yn cael ei gadw ar gyfer y person o dan adran 42 ac am sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir ynddo. Mae'r cynllun hwn yn cael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 14. Fodd bynnag, os yw'r person sy'n cael ei ryddhau yn blentyn sy'n derbyn gofal pan gaiff ei ryddhau, rhaid i'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gofalu am y plentyn gynnal y cynllun, sy'n cael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 19.

## **Adran 44 - Darpariaethau penodol Rhan 2 nad ydynt i fod yn gymwys i blant a phersonau ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth**

114. Mae adran 44 yn delio â chymhwysod dyletswyddau yn y Ddeddf mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae is-adran (1) yn darparu i'r dyletswyddau ar gyrrf llywodraethu ac awdurdodau lleol a restrir yn is-adran (2) beidio â bod yn gymwys mewn perthynas â pherson sy'n cael ei gadw'n gaeth (a ddiffinnir yn adran 39(1)) o ddechrau'r cyfnod o gadw'r person hwnnw yn gaeth.
115. Mae is-adran (3) yn darparu i'r dyletswyddau ar gyrrf llywodraethu a restrir yn is-adran (4) beidio â bod yn gymwys mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ac eithrio llety ieuencnid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.

### **Section 42 - Duty to keep individual development plans for detained persons**

110. If a detained person had an IDP immediately before becoming detained, or one is prepared during their detention by the home authority in preparation for their release (under section 40), unless the person is a young person who does not consent to it, section 42 places a duty on the home authority to keep the IDP while the person is detained in relevant youth accommodation. This is different from the duty to maintain an IDP, which involves the body maintaining it being required, amongst other things, to secure the ALP set out in it. By contrast, keeping an IDP simply involves keeping it (but not reviewing it) and arranging for 'appropriate ALP' to be provided to the detained person whilst so detained (subsection (8)). Appropriate ALP is the ALP set out in the IDP, or if that is not practicable, educational provision which corresponds as closely as possible to it, or, where the ALP in the plan is no longer appropriate, ALP which the home authority considers appropriate (subsection (9)).
111. A home authority will only be responsible for keeping an IDP previously maintained by another body or authority once the fact that an IDP was being maintained is brought to their attention (subsection (5)).
112. The detained child and their parent, or the detained young person must be informed by the home authority if an IDP is being kept and a copy of it given to the person in charge of the relevant youth accommodation (subsections (6) - (7)). See sections 84 and 85 in respect of the requirement to inform a child.

### **Section 43 - Release of a detained person**

113. Section 43 ensures that when a detained person is released from detention and on the date of release a local authority in Wales is responsible for the child or young person, that local authority is responsible for maintaining a plan which was being kept for the person under section 42 and for securing the ALP set out in it. This plan is treated as maintained under section 14. However, if the released person is a looked after child upon release, it is the local authority in Wales that looks after the child that must maintain the plan, which is treated as maintained under section 19.

### **Section 44 - Certain provisions of Part 2 not to apply to children and young persons in detention**

114. Section 44 deals with the application of duties in the Act in relation to children and young people who are detained. Subsection (1) provides for the duties on governing bodies and local authorities listed in subsection (2) to cease to apply in relation to a detained person (defined in section 39(1)) from the start of the detention.
115. Subsection (3) provides for the duties on governing bodies listed in subsection (4) not to apply in relation to a child or young person who is detained in accommodation other than relevant youth accommodation in Wales or England.

116. Mae is-adrannau (5) i (7) yn delio â'r rhwngweithio rhwng Rhan 2 ac adran 562 o Ddeddf 1996. Mae adran 562 yn datgymhwysyo swyddogaethau awdurdod lleol o dan Ddeddf 1996 mewn perthynas â phersonau penodol sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 yn diwygio adran 562 fel nad yw'r datgymhwysyo yn gymwys mwyach i'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuencid perthnasol. Mae adran 562 yn gymwys i'r Ddeddf (gweler adran 99(6)). Mae is-adrannau (5) i (7) yn cymhwysyo adran 562 at ddibenion y Ddeddf fel pe bai'r diwygiadau a wneir iddi gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 eisoes mewn grym yn llawn o ran Cymru, ac fel pe bai'r cyfeiriad ynddi at lety ieuencid perthnasol yn gyfeiriad at lety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. O ganlyniad, nid yw'r dyletswyddau yn Rhan 2 o'r Ddeddf ar awdurdodau cartref yn cael eu datgymhwysyo mewn perthynas â'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr, ond nid yw'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn Rhan 2 yn gymwys mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ac eithrio llety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.

#### **Adran 45 – Cadw'n gaeth o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983**

117. Mae adran 45 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gymhwysyo swyddogaethau y darperir ar eu cyfer gan Ran 2 mewn cysylltiad â phersonau sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r pŵer ar gael pan na fo'r swyddogaethau yn gymwys oherwydd adran 562 o Ddeddf 1996 neu adran 44. Mae'r pŵer i gymhwysyo'r swyddogaethau gydag addasiad neu hebddo.

#### **Yr angen am gynlluniau**

#### **Adran 46 – Rheoliadau ynghylch penderfynu a oes angen cynllun datblygu unigol**

118. Yn gyffredinol, i bobl ifanc ag ADY, os ydynt mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, mae hawlogaeth ganddynt i gael CDU (gweler adrannau 11, 14 ac 31(6)(b)). Os nad yw person ifanc yn fyfyrwr o'r fath neu'n ddisgybl o'r fath neu os yw'n cael ei gadw'n gaeth, mae pa un a oes gan y person hawlogaeth i gael CDU ai peidio yn dibynnau ar benderfyniad o ran a oes angen cynnal cynllun ar gyfer y person er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant (gweler adrannau 14(1)(c)(ii), 31(6)(b) a 40(2)(b), er bod union eiriad y penderfyniad ychydig yn wahanol ym mhob achos o ystyried yr amgylchiadau gwahanol o dan sylw). Mae adran 46 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch y penderfyniadau hynny, yn benodol y materion a restrir yn is-adran (2).

116. Subsections (5) to (7) deal with the interaction between Part 2 and section 562 of the 1996 Act. Section 562 disapplies a local authority's functions under the 1996 Act in relation to certain persons who are detained. The Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 amends section 562 so that the disapplication no longer applies to those who are detained in relevant youth accommodation. Section 562 applies to the Act (see section 99(6)). Subsections (5) to (7) apply section 562 for the purposes of the Act as if the amendments to it made by the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 were already fully in force in relation to Wales, and its reference to relevant youth accommodation were to relevant youth accommodation in Wales or England. The result is that the duties in Part 2 of the Act on home authorities are not disapplied in relation to those detained in relevant youth accommodation in Wales or England, but duties on local authorities in Part 2 do not apply in relation to a child or young person who is detained in accommodation other than relevant youth accommodation in Wales or England.

### **Section 45 – Detention under Part 3 of the Mental Health Act 1983**

117. Section 45 gives the Welsh Ministers a regulation power to apply functions provided for by Part 2 in respect of persons who are subject to a detention order and detained in a hospital under Part 3 of the Mental Health Act 1983. The power is available where the functions do not apply due to section 562 of the 1996 Act or section 44. The power is to apply the functions with or without modification.

### **Necessity of plans**

### **Section 46 – Regulations about deciding whether an individual development plan is necessary**

118. Generally, for young persons with ALN, if they are at a maintained school or FEI in Wales, they are entitled to an IDP (see sections 11, 14 and 31(6)(b)). If a young person is not such a student or pupil or is detained, whether or not the person is entitled to an IDP depends upon a decision involving whether it is necessary to maintain a plan for the person to meet his or her reasonable needs for education or training (see sections 14(1)(c)(ii), 31(6)(b) and 40(2)(b), although the precise wording of the decision is slightly different in each case given the different circumstances involved). Section 46 enables the Welsh Ministers to make provision in regulations about those decisions, specifically the matters listed in subsection (2).

### **Pennod 3 - Swyddogaethau Atodol**

#### **Swyddogaethau sy'n ymwneud â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol Adran 47 - Dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol**

119. Mae adran 47(1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu'n fyfyriwr ymrestredig mewn sefydliad addysg bellach, ond nad oes CDU wedi ei gynnal ar ei gyfer, fod rhaid i'r corff llywodraethu perthnasol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ADY y person yn galw amdani. Y rheswm dros hyn yw sicrhau, er enghraifft, fod plant a phobl ifanc o'r fath yn cael cefnogaeth briodol tra canfyddir eu hanghenion neu tra llunnir cynllun ar eu cyfer. Rhaid i'r cod gynnwys canllawiau ynghylch sefyllfaedd pan fo cynllun yn cael ei lunio ar gyfer y dysgwr (is-adran (3)). Bydd y ddyletswydd ar y cyrrf llywodraethu hefyd yn gymwys mewn cysylltiad â disgyblion neu fyfyrwyr sy'n preswylio yn Lloegr ac nad oes ganddynt CDU (yn yr achos hwnnw, mae'n bosibl bod ganddynt gynllun AIG, neu mae'n bosibl bod cais wedi ei wneud i'r awdurdod lleol yn Lloegr am asesiad AIG - gweler adran 12).
120. Mae adran 47(4) a (5) yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, fod y corff llywodraethu perthnasol yn cymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU.

### **Adran 48 - Dyletswydd i dderbyn plant i ysgolion a gynhelir a enwir**

121. Mae adran 48 yn gosod dyletswydd ar gyrrf llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru i dderbyn plant pan fo'r ysgol honno wedi ei henwi mewn CDU at ddiben derbyn plant gan awdurdod lleol. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa o dan Ddeddf 1996 mewn perthynas ag enwi ysgol mewn datganiad AAA. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn cyfyngu ar yr amgylchiadau hynny pan ganiateir i ysgolion gael eu henwi i'r amgylchiadau hynny pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod lles y plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei gwneud yn yr ysgol honno, a'i bod yn briodol darparu'r addysg neu'r hyfforddiant i'r plentyn yno. Cyn enwi ysgol o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol, ac yn achos ysgol a gynhelir pan nad yr awdurdod lleol na'i chorff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol (fel y'i diffinnir gan adran 88 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998), â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r ysgol.
122. Pan fo ysgol a gynhelir wedi ei henwi o dan yr adran hon, rhaid i'r corff llywodraethu dderbyn y plentyn hyd yn oed os byddai hyn yn arwain at fynd yn uwch nag unrhyw derfyn ar faint dosbarth babanod (gweler is-adran (5)). Nid yw'r ddyletswydd yn yr adran hon i dderbyn plentyn yn effeithio ar unrhyw bŵer i wahardd y plentyn hwnnw o'r ysgol (is-adran (6)).

## **Chapter 3 - Supplementary Functions**

### **Functions relating to securing additional learning provision**

#### **Section 47 - Duty to take all reasonable steps to secure additional learning provision**

119. Section 47(1) and (2) requires that where a child or young person with ALN is a registered pupil at a maintained school or an enrolled student at an FEI, but has no IDP maintained for them, the relevant governing body must take all reasonable steps to secure the ALP called for by the person's ALN. This is to ensure, for example, that such children and young people receive appropriate support whilst their needs are being determined or a plan is being prepared for them. The code must include guidance about situations where a plan is being prepared for the learner (subsection (3)). The duty on the governing bodies will also apply in respect of pupils or students resident in England who do not have an IDP (in which case, they may have an EHC plan, or there may have been a request to the England local authority for an EHC assessment - see section 12).
120. Section 47(4) and (5) require that when a local authority maintains an IDP for a child or young person attending a maintained school or FEI, the relevant governing body takes all reasonable steps to help the local authority secure the ALP set out in the IDP.

#### **Section 48 - Duty to admit children to named maintained schools**

121. Section 48 places a duty on governing bodies of maintained schools in Wales to admit children where that school is named for the purpose of admission by a local authority in an IDP. This is similar to the position under the 1996 Act in relation to the naming of a school in a statement of SEN. However, this section limits the circumstances in which schools may be named to those where the local authority is satisfied that the child's interest requires the ALP to be made at that school, and it is appropriate for the child to be provided with education or training there. Before naming a school under this section, the local authority must consult the governing body of the school, and in the case of a maintained school where neither the local authority nor its governing body is the admissions authority for the school (as defined by section 88 of the School Standards and Framework Act 1998), the local authority for the area in which the school is located.
122. Where a maintained school is named under this section, the governing body must admit the child even if this would result in any limit on the size of an infant class being exceeded (see subsection (5)). The duty in this section to admit a child does not affect any power to exclude that child from the school (subsection (6)).

### **Adran 49 - Dim pŵer i godi tâl am ddarpariaeth a sicrheir o dan y Rhan hon**

123. Mae adran 49 yn sicrhau nad oes rhaid i blentyn, rhiant (sy'n unigolyn yn hytrach nag awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn) neu berson ifanc dalu am unrhyw ddarpariaeth y mae corff llywodraethu neu awdurdod lleol yn ei sicrhau ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw o dan y Ddeddf. Mae'r adran yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau na ellir defnyddio swyddogaethau awdurdod lleol o dan y Ddeddf honno, sy'n ymwneud ag adennill cyfraniadau oddi wrth rieni plant sy'n derbyn gofal tuag at gynhaliaeth y plentyn, ar gyfer materion y mae'r awdurdod yn eu sicrhau o dan y Ddeddf.

### **Adran 50 - Dyletswyddau Gweinidogion Cymru i sicrhau addysg a hyfforddiant ôl-16**

124. Mae'r Ddeddf yn diwygio darpariaethau yn Neddf 2000 sy'n delio â dysgwyr ôl-16 sydd ag 'anawsterau dysgu'. Mae'r Ddeddf honno yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â: chynnal asesiadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau dysgu (adran 140); sicrhau llety byrddio i ddysgwyr ôl-16 o dan amgylchiadau penodedig (adran 41); ac yn fwy cyffredinol, sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant ôl-16 (adrannau 31, 32 a 34), ond wrth wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i anghenion personau ag anawsterau dysgu ac i asesiadau dysgu a sgiliau (adran 41).
125. Mae adran 50 yn diwygio Deddf 2000 er mwyn dileu swyddogaethau sy'n ymwneud â sicrhau llety byrddio a chynnal asesiadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag anawsterau dysgu, gan fod y materion hyn yn cael eu disodli gan y system ADY y darperir ar ei chyfer yn Rhan 2, sy'n cynnwys dyletswyddau i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY, i lunio a chynnal CDUau ac i sicrhau bwyd a llety i bobl ifanc o dan amgylchiadau penodedig.
126. Mae adran 50 hefyd yn diwygio Deddf 2000 fel bod Gweinidogion Cymru, wrth iddynt gynllunio'r ddarpariaeth o addysg neu hyfforddiant ôl-16, yn ystyried gallu'r gweithlu addysg bellach i gyflenwi darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ac argaeedd cyfleusterau i asesu a oes gan bersonau ADY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn diwygio'r hyn sy'n weddill o adran 41 er mwyn adlewyrchu'r derminoleg yn y Ddeddf hon. Mae paragraff 8 o Atodlen 1 yn gwneud newidiadau canlyniadol pellach i derminoleg yn Neddf 2000.

### **Adran 51 - Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir**

127. Mae adran 51 yn ei gwneud yn ofynnol, pan ddylai plentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol ac sydd ag ADY gael ei addysgu mewn ysgol, fod rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) yn gymwys. Mae'r eithriadau hyn yn cydnabod y gallai fod yn briodol addysgu plentyn ag ADY mewn man arall ar adegau. Fodd bynnag, nid yw'r eithriad yngylch dymuniadau rhieni yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau addysg y plentyn ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir (is-adran (4)). Hefyd, nid yw'r gofyniad ar yr awdurdod lleol yn yr is-adran hon yn atal plentyn rhag cael ei addysgu mewn ysgol arbennig gymeradwy nas cynhelir yn Lloegr neu mewn ysgol annibynnol, os nad yw'n talu cost yr addysg honno (is-adran (5)).

### **Section 49 - No power to charge for provision secured under this Part**

123. Section 49 ensures that a child, parent (who is an individual rather than a local authority who looks after a child) or a young person does not have to pay for any provision that a governing body or local authority secures for that child or young person under the Act. The section amends the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 to ensure that a local authority's functions under that Act related to recovering contributions from parents of looked after children towards the maintenance of the child, cannot be used for matters which the authority secures under the Act.

### **Section 50 - Welsh Ministers' duties to secure post-16 education and training**

124. The Act amends provisions of the 2000 Act dealing with post-16 learners who have 'learning difficulties'. That Act places functions on the Welsh Ministers relating to: undertaking assessments for post-16 learners with learning difficulties (section 140); securing boarding accommodation for post-16 learners in specified circumstances (section 41); and more generally, securing facilities for post-16 education or training (sections 31, 32 and 34), but in doing so, the Welsh Ministers must have regard to the needs of persons with learning difficulties and to learning and skills assessments (section 41).
125. Section 50 amends the 2000 Act to remove functions related to securing boarding accommodation and undertaking assessments for post-16 learners with learning difficulties, as these matters are superseded by the ALN system provided for in Part 2, which includes duties to determine whether a young person has ALN, to prepare and maintain IDPs and to secure board and lodging for young persons in specified circumstances.
126. Section 50 also amends the 2000 Act so that the Welsh Ministers, when planning the provision of post-16 education or training, take into account the capacity of the further education workforce to deliver ALP in Welsh and the availability of facilities for assessing whether persons have ALN through the medium of Welsh. It also amends what remains of section 41 to reflect the terminology in this Act. Paragraph 8 of Schedule 1 makes further consequential changes to terminology in the 2000 Act.

### **Section 51 - Duty to favour education for children at mainstream maintained schools**

127. Section 51 requires that where a child of compulsory school age with ALN should be educated in a school, the local authority must ensure that the child is educated in a mainstream maintained school, unless any of the circumstances set out in subsection (2) apply. These exceptions recognise that it might sometimes be appropriate to educate a child with ALN elsewhere. However, the exception regarding parental wishes does not require the local authority to secure the child's education otherwise than in a mainstream maintained school (subsection (4)). Also, the requirement on the local authority in this subsection does not prevent a child from being educated at an approved non-maintained special school in England or an independent school, if it is not meeting the cost of that education (subsection (5)).

## **Adran 52 - Plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir**

128. Mae adran 52 yn ei gwneud yn ofynnol i blant ag ADY sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir gymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr â'u cyfoedion nad oes ganddynt ADY, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â'r materion a restrir yn is-adran (2). Yn benodol, mae'r mater yn is-adran (2)(a) (y plentyn yn cael y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ei ADY yn galw amdani) wedi ei gynnwys oherwydd gall natur ADY y plentyn neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ei hangen arno fod o'r fath fel y dylai gael ei addysgu ar wahân i'w gyfoedion am o leiaf ran o'r amser, neu fod rhaid i hynny ddigwydd hyd yn oed. Er enghraifft, gallai hyn olygu bod angen i blentyn dreulio rhan o'r diwrnod ysgol wedi ei ddyrannu i amser addysgu ystafell ddosbarth mewn uned arbennig sydd wedi ei hatodi i'r ysgol ac sy'n gallu cyflenwi darpariaeth arbenigol ar gyfer anghenion y plentyn, ond ar adegau eraill, y dylai'r plentyn allu ymuno â'r disgyblion eraill mewn gweithgareddau ysgol megis gwasanaethau, egwyliau, diwrnodau mabolgampau, gwibdeithiau a rhai gweithgareddau ystafell ddosbarth.

## **Adran 53 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn manau ac eithrio mewn ysgolion**

129. Mae adran 53 yn caniatáu i awdurdod lleol sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol neu unrhyw ran ohoni a nodir mewn CDU y mae'n ei gynnal ar gyfer plentyn yn cael ei gwneud mewn man arall pan fydd wedi ei fodloni y byddai'n amhriodol i'r ddarpariaeth honno gael ei gwneud mewn ysgol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn golygu defnyddio offer arbenigol na ellir eu rhoi ar gael mewn ysgol.

## **Adran 54 - Diwygiadau i ofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru**

130. Mae adran 54 yn diwygio Deddf Addysg 2002 fel bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o'r ysgolion sydd wedi eu cynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru. At hynny, pan fydd ysgolion annibynnol yn cofrestru â Gweinidogion Cymru, o ganlyniad i'r diwygiad yn is-adran (3) o adran 160 o Ddeddf 2002, bydd yn ofynnol iddynt, drwy reoliadau, bennu'r math(au) (os oes rhai) o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wnânt ar gyfer disgyblion ag ADY. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei phennu yn y gofrestr a gyhoeddir hefyd.

## **Adran 55 - Amodau sy'n gymwys i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion annibynnol**

131. O dan adran 55, ni chaiff awdurdod lleol leoli plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol yng Nghymru oni bai bod yr ysgol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall yr ysgol wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn CDU y person.

132. Yn yr un modd, mae awdurdod lleol wedi ei wahardd rhag lleoli plant a phobl ifanc mewn sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr (fel y'u diffinnir yn Neddf Addysg a Sgiliau 2008), oni bai bod y sefydliad wedi ei gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall y sefydliad wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn CDU y person.

**Section 52 - Children with additional learning needs in mainstream maintained schools**

128. Section 52 requires that children with ALN educated in mainstream maintained schools take part in activities alongside their peers who do not have ALN, in so far as that is reasonably practicable and compatible with the matters listed in subsection (2). In particular, the matter in subsection (2)(a) (the child receiving the ALP called for by his or her ALN) is included because the nature of the child's ALN or the ALP they require may be such that they should be, or even must be, educated separately from their peers for at least part of the time. For example, this might mean that a child needs to spend some of the school day allocated to classroom teaching time in a special unit attached to the school which is able to deliver specialist provision for the child's needs, but at other times the child should be able to engage with the other pupils in school activities such as assemblies, breaks, sports days, trips and some classroom activities.

**Section 53 - Additional learning provision otherwise than in schools**

129. Section 53 allows a local authority to secure the ALP or any part of it identified in an IDP it maintains for a child to be made elsewhere when it is satisfied that it would be inappropriate for it to be made in a school. For example, certain forms of ALP may involve the use of specialist equipment which cannot be made available in a school setting.

**Section 54 - Amendments to registration requirements for independent schools in Wales**

130. Section 54 amends the Education Act 2002 so that the Welsh Ministers must publish a list of the schools included in the register of independent schools in Wales. Furthermore, when independent schools register with the Welsh Ministers, as a result of the amendment in subsection (3) to section 160 of the 2002 Act, they will be required by regulations, to specify the type(s) of ALP they make for pupils with ALN (if any). This information must also be specified in the published register.

**Section 55 - Conditions applicable to securing additional learning provision at independent schools**

131. Under section 55, a local authority may not place a child or young person at an independent school in Wales unless the school is on the register of independent schools in Wales and the local authority is satisfied that it can make the ALP described in the person's IDP.
132. Similarly, a local authority is prohibited from placing children and young people at independent educational institutions in England (as defined in the Education and Skills Act 2008), unless the institution is included in the register of independent educational institutions in England and the local authority is satisfied that the institution can make the ALP described in the person's IDP.

133. Mae'r darpariaethau hyn yn disodli'r darpariaethau cymeradwyo a chysyniad unigol yn adran 347 o Ddeddf 1996, a ddilëir gan adran 58.

#### **Adran 56 - Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol**

134. Mae adran 56 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr wedi ei chyhoeddi o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol (a ddiffinnir yn is-adran (6)) yng Nghymru ac yn Lloegr. Caiff perchenogion sefydliadau o'r fath (sydd wedi eu trefnu'n arbennig i ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer personau ag ADY sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) wneud cais i Weinidogion Cymru i gael eu cynnwys ar y rhestr. Ni chaiff awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 i leoli plant a phobl ifanc mewn sefydliadau o'r fath nad ydynt ar y rhestr, oni bai bod eithriad a nodir mewn rheoliadau yn gymwys (is-adran (3)). Rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer y gofynion gwneud cais, a materion sy'n ymwneud â'r rhestr, gan gynnwys yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i wrthod rhestru sefydliad neu i ddileu sefydliad o'r rhestr (is-adran (5)).

#### **Adran 57 - Diddymu cymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru**

135. Mae adran 57 yn diwygio Deddf 1996 i ddileu pŵer Gweinidogion Cymru i gymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru. Bydd rhaid i ysgolion newydd nas cynhelir gofrestru fel ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002.

#### **Adran 58 - Diddymu cymeradwyo ysgolion annibynnol yng Nghymru**

136. Mae adran 58 yn diddymu adran 347 o Ddeddf 1996 (cymeradwyo ysgolion annibynnol fel rhai sy'n addas i dderbyn plant â datganiadau AAA). Mae adrannau 54 a 55 yn darparu ar gyfer materion sy'n ymwneud â gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol ac amodau ar gyfer awdurdod lleol sy'n sicrhau addysg ar gyfer plentyn neu berson ifanc ag ADY mewn ysgol annibynnol.

#### **Adran 59 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i Gymru a Lloegr**

137. Mae adran 59 yn caniatâu i awdurdod lleol drefnu bod plentyn neu berson ifanc ag ADY yn mynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr, pan fo'r sefydliad hwnnw wedi ei drefnu i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn ei CDU.

#### **Swyddogion cydlynau anghenion dysgu ychwanegol**

#### **Adran 60 - Cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol**

138. Mae adran 60 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrf llywodraethu ysgolion a gynhelir (sy'n cynnwys ysgolion meithrin a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion) ac eithrio ysgolion arbennig a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach ddynodi person (neu bersonau) yn gydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (cydlynnydd ADY) i fod yn gyfrifol am gydlynau darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr ag ADY. Mae hefyd yn caniatâu i reoliadau roi swyddogaethau i gydlynwyr ADY sy'n ymwneud â darpariaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag ADY. Nid oes gan gydlynnydd ADY sefydliad addysg bellach y swyddogaethau hyn mewn perthynas â myfyrwyr ymrestredig i'r graddau y maent yn dilyn addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad addysg bellach (is-adran (5) ac adran 86). Caiff rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i gyrrf llywodraethu sicrhau bod gan gydlynwyr ADY y cymwysterau neu'r profiad (neu'r dda) fel y'u rhagnodir yn y rheoliadau.

133. These provisions replace the approval and individual consent provisions in section 347 of the 1996 Act, which are removed by section 58.

**Section 56 - List of independent special post-16 institutions**

134. Section 56 requires the Welsh Ministers to establish and maintain a published list of independent special post-16 institutions (defined in subsection (6)) in Wales and England. Proprietors of such institutions (which are specially organised to provide education and training for persons over compulsory school age with ALN) may apply to the Welsh Ministers to be placed on the list. Local authorities may not exercise their functions under Part 2 to place children and young people at such institutions which are not on the list, unless an exemption set out in regulations applies (subsection (3)). The application requirements, and matters related to the list, including rights of appeal against decisions to refuse to list, or to remove, an institution, must be provided for by regulations made by the Welsh Ministers (subsection (5)).

**Section 57 - Abolition of approval of non-maintained special schools in Wales**

135. Section 57 amends the 1996 Act to remove the power of the Welsh Ministers to approve non-maintained special schools in Wales. New schools that are not maintained will have to register as independent schools under the Education Act 2002.

**Section 58 - Abolition of approval of independent schools in Wales**

136. Section 58 repeals section 347 of the 1996 Act (approval of independent schools as suitable for admission of children with statements of SEN). Sections 54 and 55 provide for matters related to registration requirements for independent schools and conditions for a local authority securing education for a child or young person with ALN at an independent school.

**Section 59 - Additional learning provision outside England and Wales**

137. Section 59 allows a local authority to arrange for a child or young person with ALN to attend an institution outside England and Wales, where that institution is organised to make the ALP described in their IDP.

**Additional learning needs co-ordinating officers**

**Section 60 - Additional learning needs co-ordinator**

138. Section 60 requires governing bodies of maintained schools (which includes maintained nursery schools and pupil referral units) except special schools and governing bodies of FEIs to designate a person (or persons) as the additional learning needs co-ordinator (ALNCO) to be responsible for co-ordinating ALP for pupils and students with ALN. It also allows regulations to confer functions on ALNCOs relating to provision for pupils or students with ALN. The ALNCO of an FEI does not have these functions in relation to enrolled students in so far as they are undertaking higher education provided by the FEI (subsection (5) and section 86). Regulations may also require governing bodies to ensure that ALNCOs have qualifications or experience (or both) as prescribed in the regulations.

### **Adran 61 - Swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig**

139. Mae adran 61 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynw swyddogaethau'r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Rhaid i'r swyddog feddu ar gymwysterau a phrofiad addas o ran darparu gofal iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY a bod naill ai'n ymarferydd meddygol cofrestredig, yn nyrs gofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall.

### **Adran 62 - Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol blynnyddoedd cynnar**

140. Mae adran 62 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddynodi swyddog sydd â chyfrifoldeb am gydlynw swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran 2 mewn perthynas â phlant o dan yr oedran ysgol gorfodol, sydd ag ADY neu a all fod ag ADY, ac nad ydynt mewn ysgol neu feithrinfa a gynhelir.

### **Swyddogaethau amrywiol**

#### **Adran 63 - Dyletswydd i gadw darpariaeth ddysgu ychwanegol o dan adolygiad**

141. Mae adran 63 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw o dan adolygiad y trefniadau a wneir ganddynt hwy a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn eu hardal ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae hyn yn cynnwys ystyried y graddau y mae'r trefniadau yn ddigonol i ddiwallu ADY y plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. Fel rhan o'u hystyriaethau, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all gael ei threfnu'n rhesymol gan gyrff eraill (megis cyrff iechyd). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg a maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael. Os yw awdurdod lleol yn ystyried nad yw'r trefniadau yn ddigonol mewn unrhyw ffordd, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater. Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn llywio'r broses ystyried ac adolygu, ac ar yr adegau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

#### **Adran 64 - Dyletswydd cyrff iechyd i hysbysu rhieni etc.**

142. Mae'r adran hon yn ymwneud â sefyllfaedd pan fo corff iechyd yng Nghymru neu yn Lloegr o fath a restrir yn is-adran (2) yn arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau mewn perthynas â phlentyne sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano. Os yw'r corff iechyd yn ffurfio barn bod gan y plentyn (neu y mae'n debygol bod gan y plentyn) ADY, rhaid i'r corff iechyd ddwyn ei farn i sylw'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am y plentyn (neu os yw'r plentyn yn derbyn gofal, yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn), os yw'r corff iechyd wedi ei fodloni y byddai gwneud hynny er lles pennaf y plentyn.
143. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r corff iechyd roi gwybod i riant y plentyn am ei farn ac am ei ddyletswydd i roi gwybod i'r awdurdod lleol priodol. Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod y rhiant yn cael cyfle i drafod y farn â swyddog o'r corff iechyd, cyn i'r corff iechyd ddwyn ei farn i sylw'r awdurdod lleol priodol ac mae'n bosibl hefyd y bydd y drafodaeth yn helpu i lywio asesiad y corff iechyd o les pennaf y plentyn.
144. Mae'r adran hon hefyd yn gosod dyletswydd ar y corff iechyd i roi gwybod i'r rhiant am unrhyw sefydliadau gwirfoddol y mae'n ystyried eu bod yn debygol o allu rhoi cyngor neu gymorth i'r rhiant mewn cysylltiad ag unrhyw ADY a all fod gan y plentyn.

### **Section 61 - Designated education clinical lead officer**

139. Section 61 places a duty on Local Health Boards to designate an officer to be responsible for co-ordinating the Board's functions in relation to children and young people with ALN. The officer must be suitably qualified and experienced in the provision of health care for children and young people with ALN and be either a registered medical practitioner, a registered nurse or other health professional.

### **Section 62 – Early years additional learning needs lead officer**

140. Section 62 places a duty on local authorities to designate an officer with responsibility for co-ordinating the authority's functions under Part 2 in relation to children under compulsory school age, who have or may have ALN, and are not in a maintained nursery or school.

### **Miscellaneous functions**

#### **Section 63 - Duty to keep additional learning provision under review**

141. Section 63 places a duty on local authorities to keep under review the arrangements that they and the governing bodies of maintained schools in their area make for children and young people with ALN. This includes considering the extent to which the arrangements are sufficient to meet the ALN of the children and young people for whom they are responsible. As part of their considerations, local authorities must have regard to the ALP that may reasonably be arranged by other bodies (such as health bodies). It also requires local authorities to consider the sufficiency of ALP in Welsh and the size and capability of the workforce available. If a local authority considers that the arrangements are not sufficient in any way, it must take all reasonable steps to remedy the matter. Local authorities must consult any persons that they consider appropriate in order to inform the consideration and review, and at times which they consider appropriate.

#### **Section 64 - Duty of health bodies to notify parents etc.**

142. This section relates to situations in which a health body in Wales or England of a type listed in subsection (2) is exercising any of its functions in relation to a child who is under compulsory school age and for whom a local authority in Wales is responsible. If the health body forms the opinion that the child has (or probably has) ALN, the health body must bring its opinion to the attention of the local authority in Wales responsible for the child (or if the child is looked after, the authority that looks after the child), if the health body is satisfied that doing so would be in the best interests of the child.
143. Before doing so, the health body must inform the child's parent of its opinion and its duty to inform the appropriate local authority. This safeguard is to ensure that the parent has an opportunity to discuss the opinion with an officer of the health body, before the health body brings its opinion to the attention of the appropriate local authority and the discussion may also help inform the health body's assessment of the best interests of the child.
144. This section also places a duty on the health body to inform the parent about any voluntary organisations which it considers are likely to be able to provide the parent with advice or assistance in connection with any ALN that the child may have.

### **Adran 65 - Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a help arall**

145. Mae adran 65 yn darparu, pan fydd awdurdodau lleol yn gofyn am wybodaeth neu help arall gan bersonau penodol er mwyn arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2, y cydymffurfir â'r ceisiadau hynny, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (2). Mae'r personau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon wedi eu rhestru yn is-adran (4), sef pob corff cyhoeddus neu bersonau eraill sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus.
146. Caiff person o'r fath wrthod cydymffurfio â'r cais am help neu wybodaeth os yw'n ystyried bod gwneud hynny'n anghydnaus â'i ddyletswyddau ei hun neu y byddai'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau (is-adran (2)). Fodd bynnag, os nad yw'r person yn cydymffurfio â chais o'r fath am help neu wybodaeth, rhaid iddo roi rhesymau ysgrifenedig dros wrthod y cais i'r awdurdod lleol (is-adran (3)).
147. Mae is-adran (5) yn caniatáu i reoliadau nodi cyfnod y mae rhaid i'r person gydymffurfio â chais ynddo, ac i eithriadau fod yn gymwys i'r gofyniad i gydymffurfio o fewn y cyfnod hwn.

### **Adran 66 - Hawl awdurdod lleol i gael mynediad i fangreoedd ysgolion a sefydliadau eraill**

148. Mae adran 66 yn sicrhau bod gan awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc hawl i gael mynediad i unrhyw fan ym mangre'r ysgol neu'r sefydliad arall yng Nghymru neu yn Lloegr lle y darperir addysg neu hyfforddiant ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw. Dim ond pan fo'n angenreheidiol er mwyn i'r awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon y mae'r hawl mynediad hon yn gymwys, a rhaid i hynny ddigwydd ar adeg resymol.
149. Mae'r sefydliadau y mae hawl gan awdurdod lleol i gael mynediad iddynt wedi eu rhestru yn is-adran (3).

### **Adran 67 - Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol**

150. Mae adran 67 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu i awdurdodau lleol gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i bersonau sy'n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol neu sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon. Caiff hyn gynnwys rheoliadau ynghylch telerau ac amodau cyflenwi nwyddau a gwasanaethau o'r fath.

### **Pennod 4 – Osgoi a Datrys Anghytundebau**

#### **Trefniadau awdurdodau lleol**

##### **Adran 68 - Trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau**

151. Mae adran 68 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys y canlynol:
- a. anghytundebau rhwng awdurdodau lleol neu gyrrf llywodraethu ar y naill law, a phlant, eu rhieni a phobl ifanc ar y llaw arall mewn perthynas â swyddogaethau o dan y Ddeddf (is-adran (1)); a
  - b. anghytundebau rhwng perchenogion (fel y'u diffinnir yn adran 579(1) o Ddeddf 1996 ac adran 99(1)) mathau amrywiol o ysgol a sefydliadau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr (gweler y rhestr yn is-adran (7)) ar y naill law ac ar y llaw arall, plant, eu rhieni a phobl ifanc ynghylch y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir ar gyfer plant neu bobl ifanc.

**Section 65 - Duties to provide information and other help**

145. Section 65 provides that when local authorities request information or other help from certain persons in order to exercise their functions under Part 2, those requests are complied with, except in the circumstances set out in subsection (2). The persons who are subject to this duty are listed in sub-section (4) and are all public bodies or other persons exercising public functions.
146. Such a person can decline to comply with the request for help or information if they consider that it is incompatible with their own duties or would have an adverse effect on the exercise of their functions (subsection (2)). However, if the person does not comply with such a request for help or information, they must provide their reasons for refusing the request to the local authority in writing (subsection (3)).
147. Subsection (5) allows for regulations to set out a period within which the person must comply with a request, and for exceptions to apply to the requirement to comply within this period.

**Section 66 - Right of local authority to access premises of schools and other institutions**

148. Section 66 ensures that a local authority that maintains an IDP for a child or young person has a right to access any place at the premises of the school or other institution in Wales or England where education or training is provided for that child or young person. This right of access only applies where it is necessary for the local authority to exercise its functions under this Part, and it must be at a reasonable time.
149. The institutions that a local authority has a right to access are listed in subsection (3).

**Section 67 - Provision of goods or services in relation to additional learning provision**

150. Section 67 gives the Welsh Ministers powers to make regulations to provide for local authorities to supply goods and services to persons providing ALP or exercising functions under this Part. This may include regulations about terms and conditions for the supply of such goods and services.

**Chapter 4 - Avoiding and Resolving Disagreements**

**Local authority arrangements**

**Section 68 - Arrangements for the avoidance and resolution of disagreements**

151. Section 68 requires local authorities to make arrangements for both avoiding and resolving the following
  - a. disagreements between local authorities or governing bodies on the one hand, and children, their parents and young people on the other in relation to functions under the Act (subsection (1)); and
  - b. disagreements between proprietors (as defined in section 579(1) of the 1996 Act and section 99(1)) of various types of school and other institutions in Wales or England (see the list in subsection (7)) on the one hand and on the other hand, children, their parents and young people about the ALP made for children or young people.

152. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys darparu mynediad at help gan berson annibynnol i ddatrys anghytundeb. O dan adran 9 rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau yn hysbys i bobl amrywiol, gan gynnwys plant a'u rhieni, pobl ifanc a chyrrf llywodraethu yn eu hardal. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd hybu'r defnydd ohonynt (adran 68(4)). Caiff y cod osod gofynion pellach ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'r trefniadau o dan adran 4(5). Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i roi gwybod i blant, eu rhieni a phobl ifanc nad yw'r trefniadau hyn yn effeithio ar eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys (is-adran (5)). Mae is-adran (8) yn darparu y bydd trefniadau awdurdodau lleol o dan yr adran hon hefyd yn gymwys i blant y maent yn gofalu amdanynt, ond nad ydynt yn eu hardal.

#### **Adran 69 - Gwasanaethau eirioli annibynnol**

153. Mae adran 69 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau eirioli annibynnol sy'n darparu cyngor a chymorth i blentyn, person ifanc neu gyfaill achos (gweler adran 85) sy'n gwneud, sy'n bwriadu gwneud neu sy'n ystyried gwneud, apêl i'r Tribiwnlys neu sy'n cymryd rhan, neu sy'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a wneir o dan adran 68. Mae dyletswydd hefyd i atgyfeirio plant, pobl ifanc a chyfeillion achos o'r fath (pan fo'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn penodol neu'r person ifanc penodol - gweler adran 85) i ddarparwr y gwasanaethau eirioli. Mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os yw'r person yn ardal yr awdurdod (gweler adran 99(4)) ac yn rhinwedd adran 68(8), bydd trefniadau awdurdodau lleol o dan yr adran hon hefyd yn gymwys i blant y maent yn gofalu amdanynt, ond nad ydynt yn eu hardal. Mae hyn yn caniatáu i blant o'r fath sy'n derbyn gofal gael mynediad at drefniadau eirioli'r awdurdod lleol sy'n gofalu amdanynt, neu drefniadau eirioli'r awdurdod lleol y maent yn ei ardal.
154. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor y dylai trefniadau'r gwasanaethau eirioli annibynnol fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n destun apêl neu sy'n ymwneud â'r apêl (is-adran (3)).
155. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan adran 9, gymryd camau rhesymol i sicrhau bod pobl amrywiol, gan gynnwys plant (a'u rhieni), pobl ifanc a chyrrf llywodraethu yn eu hardal yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.

#### **Apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys**

#### **Adran 70 - Hawliau o ran apelau a cheisiadau**

156. Mae adran 70 yn darparu hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach a phenderfyniadau awdurdodau lleol ac mewn perthynas â CDUau a lunnir neu a gynhelir gan gorff neu awdurdod o'r fath neu a ddiwygir gan awdurdod o dan adran 27(6). Nid yw'n caniatáu i apelau gael eu dwyn yn erbyn camau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, ond gall eu camau gael eu hatgyfeirio i awdurdodau lleol er mwyn iddynt eu hailystyried (gweler adrannau 26, 27 a 32) ac mae hawl i apelio yn erbyn camau'r awdurdodau wrth ailystyried materion (fel y'i nodir yn is-adran (2)).
157. Mae is-adran (2) yn nodi'r materion y caiff plentyn, ei riant neu berson ifanc apelio i'r Tribiwnlys yn eu herblyn, er enghraifft yngylch penderfyniad bod gan blentyn neu berson ifanc ADY neu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.

152. This requirement includes providing access to help from an independent person to resolve a disagreement. Under section 9 local authorities must take reasonable steps to make the arrangements known to various people, including children and their parents, young people and governing bodies in their area. Local authorities must also promote their use (section 68(4)). The code may impose further requirements on local authorities in respect of the arrangements under section 4(5). Local authorities are also under a duty to inform children, their parents and young people that these arrangements do not affect their rights to appeal to the Tribunal (subsection (5)). Subsection (8) provides that local authorities' arrangements under this section will also apply to children they look after, but are not in their area.

### **Section 69 - Independent advocacy services**

153. Section 69 requires local authorities to make arrangements for independent advocacy services providing advice and assistance to a child, a young person or a case friend (see section 85) who is making, intending to make, or considering making, an appeal to the Tribunal or taking part in, or intending to take part in, arrangements for the resolution of disagreements made under section 68. There is also a duty to refer such children, young people and case friends (where the local authority is responsible for the particular child or young person - see section 85) to the advocacy service provider. A local authority is responsible for a child or young person if the person is in the authority's area (see section 99(4)) and by virtue of section 68(8), local authorities' arrangements under this section will also apply to children it looks after, but who are not in its area. This allows such looked after children to access the advocacy arrangements of the local authority that looks after them, or those of the local authority in whose area they are.
154. Local authorities must have regard to the principle that the independent advocacy service arrangements should be independent of any person who is the subject of appeal or involved in the appeal (subsection (3)).
155. Local authorities are also required, under section 9, to take reasonable steps to ensure that various people, including children (and their parents), young people and governing bodies in their area, are made aware of these arrangements.

### **Appeals and applications to the Tribunal**

#### **Section 70 - Appeal and application rights**

156. Section 70 provides children, parents of children and young people with rights of appeal to the Tribunal against decisions of governing bodies of FEIs and decisions of local authorities and in relation to IDPs prepared or maintained by such a body or authority or revised by an authority under section 27(6). It does not allow for appeals to be brought against actions of governing bodies of maintained schools, but their actions can be referred to local authorities for reconsideration (see sections 26, 27 and 32) and there are appeal rights against the authorities' actions in reconsidering matters (as set out in subsection (2)).
157. Subsection (2) sets out the matters against which a child, child's parent or young person may appeal to the Tribunal, for example about a decision that a child or young person has or does not have ALN.

158. Yn rhinwedd adran 85, o dan amgylchiadau penodol, caniateir i gyfeillion achos gael eu penodi ar ran plentyn nad oes ganddo ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i ddeall rhai o'r materion sydd wedi eu cwmpasu gan y Ddeddf hon a chânt arfer hawliau penodol y plentyn o dan y Ddeddf, gan gynnwys yr hawl i ddwyn apêl o dan adran 70(2). Mae'n bosibl mai'r ffaith bod y plentyn yn ifanc sydd i gyfrif am y ffaith nad oes ganddo ddealltwriaeth neu mae'n bosibl bod rhesymau eraill, megis anabledd dysgu. Mae adran 84 yn darparu ar gyfer pwy sy'n penderfynu nad oes gan blentyn ddealltwriaeth.
159. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi plentyn neu riant plentyn i wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad naill ai bod gan y plentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd (lefel angenheidiol o ddealltwriaeth) i wneud penderfyniadau neu i ddeall gwybodaeth mewn perthynas â'i ADY (is-adran (3)).

#### **Adran 71 - Penderfyniadau ar apelau a cheisiadau o dan adran 70**

160. Mae adran 71 yn nodi'r gorchmynion neu'r penderfyniadau eraill y caiff y Tribiwnlys eu gwneud ar apêl o dan adran 70(2) (Hawliau o ran apelau a cheisiadau). Mae hefyd yn darparu i'r Tribiwnlys, ar gais o dan adran 70(3) o ran pa un a oes gan blentyn alluedd ai peidio, ddatgan ar y mater.

#### **Adran 72 - Hawliau o ran apelio: personau sy'n cael eu cadw'n gaeth**

161. Mae adran 72 yn rhestru'r materion y caiff person sy'n cael ei gadw'n gaeth (pa un a yw'n blentyn neu'n berson ifanc) a rhiant plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth apelio i'r Tribiwnlys yn eu herbyn. Mae'r rhain yn cyfateb yn fras o ran sylwedd i'r hawliau apelio i blant a phobl ifanc nad ydynt yn cael eu cadw'n gaeth (adran 70), ond yn adlewyrchu'r dyletswyddau gwahanol sy'n ddyledus i bersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth.

#### **Adran 73 - Penderfyniadau ar apelau o dan adran 72**

162. Mae adran 73 yn nodi'r gorchmynion neu'r penderfyniadau eraill y caiff y Tribiwnlys eu gwneud ar apêl o dan adran 72 (Hawliau o ran apelio: personau sy'n cael eu cadw'n gaeth).

#### **Adran 74 - Rheoliadau yngylch apelau a cheisiadau**

163. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth bellach yngylch apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys o dan Ran 2, gan gynnwys, er enghraifft, yngylch materion eraill sy'n ymwneud â CDU y gellir dwyn apêl yn eu herbyn, yngylch gwneud apelau neu geisiadau a phenderfynu arnynt, rhoi pwerau pellach i'r Tribiwnlys wrth benderfynu ar apêl neu gais, ac apelau neu geisiadau heb wrthwynebiad.

#### **Adran 75 - Rheoliadau yngylch y weithdrefn**

164. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yngylch cychwyn apêl neu gais o dan Ran 2 a thrafodion y Tribiwnlys ar apêl neu gais o'r fath. Mae is-adran (2) yn rhestru'r darpariaethau y caniateir iddynt gael eu cynnwys yn y rheoliadau ac mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i drafodion gerbron y Tribiwnlys gael eu cynnal yn breifat, ac eithrio o dan amgylchiadau a ragnodir mewn rheoliadau.

158. By virtue of section 85, in particular circumstances, case friends can be appointed on behalf of a child who does not have sufficient understanding and intelligence to understand some of the matters covered by this Act and they can exercise specific rights of the child under the Act, including the right to bring an appeal under section 70(2). The child's lack of understanding could be because of their young age, or for other reasons, such as a learning disability. Section 84 provides for who determines whether a child lacks understanding.
159. This section also enables a child or a child's parent to apply to the Tribunal for a declaration that the child either does or does not have the capacity (level of understanding necessary) to make decisions or understand information in relation to their ALN (subsection (3)).

#### **Section 71 - Decisions on appeals and applications under section 70**

160. Section 71 sets out the orders or other decisions that the Tribunal may make on an appeal under section 70(2) (Appeal and application rights). It also provides for the Tribunal, on an application under section 70(3) as to whether or not a child has capacity, to make a declaration upon the matter.

#### **Section 72 - Appeal rights: detained persons**

161. Section 72 lists the matters against which a detained person (whether a child or young person) and a detained child's parent may appeal to the Tribunal. These are broadly equivalent in substance to the appeal rights for children and young persons who are not detained (section 70), but reflect the different duties owed to detained persons.

#### **Section 73 - Decisions on appeals under section 72**

162. Section 73 sets out the orders or other decisions that the Education Tribunal for Wales may make on an appeal under 72 (Appeal rights: detained persons).

#### **Section 74 - Regulations about appeals and applications**

163. This section enables the Welsh Ministers to make regulations containing further provision about appeals and applications to the Tribunal under Part 2, including, for example, about other matters relating to an IDP against which appeals may be brought, about making and determining appeals or applications, conferring further powers on the Tribunal on determining an appeal or application, and unopposed appeals or applications.

#### **Section 75 - Regulations about procedure**

164. This section enables the Welsh Ministers to make regulations about the initiation of an appeal or application under Part 2 and the proceedings of the Tribunal on such an appeal or application. Subsection (2) lists provisions which may be included in the regulations and subsection (3) provides that proceedings before the Tribunal must be held in private, except in circumstances prescribed in regulations.

### **Adran 76 - Cyrff GIG: tystiolaeth ac argymhellion y Tribiwnlys**

165. Mae adran 76 yn darparu y caiff y Tribiwnlys arfer ei swyddogaethau er mwyn: ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG roi tystiolaeth yngylch arfer swyddogaethau'r corff; a gwneud argymhellion i gorff GIG yngylch arfer swyddogaethau'r corff, yn y ddau achos mewn perthynas ag apêl o dan Ran 2. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG y gwnaed argymhelliaid iddo lunio adroddiad i'r Tribiwnlys, o fewn unrhyw gyfnod a ragnodir mewn rheoliadau, ar naill ai: y camau y mae wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhelliaid; neu os nad yw wedi cymryd unrhyw gamau ac nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau, y rheswm dros hynny.
166. Mae 'corff GIG' wedi ei ddiffinio yn adran 99(1) fel Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG (gweler hefyd y pŵer yn adran 99(8)).

### **Adran 77 - Cydymffurfedd â gorchymynion**

167. O dan yr adran hon, os yw'r Tribiwnlys yn gwneud gorchymyn o dan Ran 2 (e.e. sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddiwygio CDU), rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol o dan sylw gydymffurfio â'r gorchymyn cyn diwedd y cyfnod (os oes un) a ragnodir mewn rheoliadau, sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff ei wneud. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff neu'r awdurdod o dan sylw adrodd i'r Tribiwnlys o ran cydymffurfedd â'r gorchymyn o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad y mae rhaid ei fod wedi cydymffurfio â'r gorchymyn (o dan is-adran (1)).

### **Adran 78 – Pŵer i rannu dogfennau a gwybodaeth arall â Gweinidogion Cymru**

168. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys i rannu â Gweinidogion Cymru wybodaeth am gydymffurfedd â gorchymyn neu argymhelliaid gan y Tribiwnlys a wneir o dan Ran 2. Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y gall rannu'r holl wybodaeth mewn unrhyw achos penodol, oherwydd bydd yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau, a fyddai'n gydnaws â hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac a fyddai'n ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau eraill yn y gyfraith (er enghraift o dan ddeddfwriaeth ar ddiogelu data).
169. Mae'n bosibl y bydd hyn yn helpu Gweinidogion Cymru i fonitro gweithrediad y system y darperir ar ei chyfer yn y Ddeddf a llywio ystyriaeth o ran pa un i gymryd camau o dan bwerau eraill (e.e. o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) mewn ymateb i achosion ymddangosiadol o beidio â chydymffurfio.

### **Adran 79 - Trosedd**

170. Mae'r adran hon yn darparu bod y rheini sy'n methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gofyniad (sydd wedi ei osod gan reoliadau o dan adran 74 neu 75) sy'n ymwneud â datgelu dogfennau neu edrych ar ddogfennau neu i fod yn bresennol yn y tribiwnlys i roi tystiolaeth a dangos dogfennau, yn euog o drosedd y mae modd ei chosbi drwy ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

### **Adran 80 - Lwfansau am fod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru**

171. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i dalu lwfansau mewn perthynas â bod yn bresennol yn y Tribiwnlys.

### **Section 76 – NHS Bodies: evidence and Tribunal recommendations**

165. Section 76 provides that the Tribunal may exercise its functions to: require an NHS body to give evidence about the exercise of the body's functions; and make recommendations to an NHS body about the exercise of the body's functions, in both cases in relation to an appeal under Part 2. It also requires the NHS body to which a recommendation has been made, to report to the Tribunal, within any period prescribed in regulations, on either: the actions it has taken or proposes to take in response to the recommendation; or if it has not and does not intend to take any action, why that is.
166. 'NHS body' is defined in section 99(1) as a Local Health Board or an NHS trust (see also the power in section 99(8)).

### **Section 77 - Compliance with orders**

167. Under this section if the Tribunal makes an order under Part 2 (e.g. requiring a local authority to revise an IDP), the governing body or the local authority concerned must comply with the order before the end of the period (if any) prescribed in regulations, beginning with the date on which it is made. Subsection (2) requires the body or authority concerned to report to the Tribunal on compliance with the order within the 14 day period starting on the day after the date by which it must have complied with the order (under subsection (1)).

### **Section 78 – Power to share documents and other information with the Welsh Ministers**

168. This section gives the Tribunal power to share with the Welsh Ministers information about compliance with a Tribunal order or recommendation made under Part 2. However, this does not necessarily mean that it can share all information in any particular instance, as it will depend upon all the circumstances, whether it would be compatible with rights under the European Convention on Human Rights and would be subject to any other restrictions in law (for example under legislation on data protection).
169. This may assist the Welsh Ministers in monitoring the operation of the system provided for in the Act and inform consideration of whether to take action under other powers (e.g. under Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013) in response to apparent non-compliance.

### **Section 79 - Offence**

170. This section provides that those who fail, without reasonable excuse, to comply with a requirement (imposed by regulations under section 74 or 75) related to the disclosure or inspection of documents or to attend the tribunal to give evidence and produce documents, is guilty of an offence punishable by a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

### **Section 80 - Allowances for attendance at the Education Tribunal for Wales**

171. This section provides a power for Welsh Ministers to pay allowances in relation to attendance at the Tribunal.

### **Adran 81 - Apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys**

172. Mae adran 81 yn caniatáu i barti i unrhyw drafodion ynghylch ADY gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru apelio (â chaniatâd - gweler is-adran (2)) i'r Uwch Dribiwnlys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan Dribiwnlys Addysg Cymru yn y trafodion hynny.
173. Mae adran 12 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn nodi'r hyn y gall yr Uwch Dribiwnlys ei wneud pan fo'n canfod bod gwall cyfreithiol yn gysylltiedig â phenderfyniad mewn apêl o dan adran 11 o'r Ddeddf honno: caiff osod y penderfyniad o'r neilltu ac os felly, mae adran 11 yn nodi'r opsiynau pellach o ran sut i fwrw ymlaen. Mewn gwirionedd, mae adran 81(3) yn cymhwysyo hyn i apelau i'r Uwch Dribiwnlys oddi wrth y Tribiwnlys Addysg o dan adran 81.

### **Pennod 5 - Cyffredinol**

#### **Adran 82 - Rheoliadau ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth**

174. Mae adran 82 yn caniatáu ar gyfer rheoliadau ynghylch sut y caniateir i wybodaeth gael ei defnyddio a'i datgelu at ddibenion Rhan 2 neu at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg plentyn neu berson ifanc. Gall hyn gynnwys rheoliadau ynghylch personau ychwanegol y mae rhaid iddynt gael copïau o CDUau, ac achosion pan fydd rhaid darparu copïau o'r cynlluniau heb gydsyniad y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc.

### **Adran 83 - Rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd**

175. Mae adran 83 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau gael eu gwneud i alluogi rhieni a phobl ifanc, nad oes ganddynt alluedd meddyliol ar adeg pan fydd ganddynt hawl i rywbehd o dan Ran 2 (e.e. i gael hysbysiad neu i wneud apêl), i gael eu cynrychioli gan berson priodol. Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at fod heb alluedd yn gyfeiriad at y diffiniad o "lacking capacity" yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005.

### **Adran 84 - Galluedd plant**

176. Mae adran 84 yn darparu ar gyfer amgylchiadau pan na fo gan blentyn ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i ddeall dogfennau a ddarperir o dan Ran 2, neu'r hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau o dan y Rhan honno. Gallai hyn fod oherwydd bod y plentyn yn ifanc neu oherwydd resymau eraill, megis anhawster dysgu. Pan fo corff llywodraethu, awdurdod lleol neu gorff GIG yn ystyried nad oes gan blentyn y gallu i ddeall, a/neu pan fo'r Tribiwnlys wedi gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw, nid yw'r dyletswyddau o dan y Ddeddf i ddarparu gwybodaeth i'r plentyn neu i'w hysbysu am benderfyniadau yn gymwys oni bai bod cyfaill achos wedi ei benodi ar gyfer y plentyn gan y Tribiwnlys neu fod y Tribiwnlys wedi datgan bod gan y plentyn alluedd. (Gweler adran 85(4) a (5) am effaith penodi cyfaill achos ar gyfer plentyn ar arfer hawliau'r plentyn hwnnw o dan Ran 2).
177. Ar yr un sail, mae'r adran hon yn datgymhwysyo dyletswyddau i adolygu neu i ailystyried penderfyniadau neu CDUau neu i benderfynu pa un ai i gymryd drosodd CDU yn dilyn cais gan blentyn yr ystyri nad oes ganddo'r galluedd i ddeall.

### **Section 81 - Appeals from the Education Tribunal for Wales to the Upper Tribunal**

172. Section 81 allows a party to any proceedings about ALN before the Education Tribunal for Wales to appeal (with permission – see subsection (2)) to the Upper Tribunal on any point of law arising from a decision made by the Education Tribunal for Wales in those proceedings.
173. Section 12 of the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 sets out what the Upper Tribunal can do where it finds that a decision involved an error of law in an appeal under section 11 of that Act: it may set aside the decision and if so, section 11 sets out the further options as to how to proceed. In effect section 81(3) applies this to appeals to the Upper Tribunal from the Education Tribunal under section 81.

### **Chapter 5 – General**

#### **Section 82 - Regulations about disclosure and use of information**

174. Section 82 allows for regulations about how information may be used and disclosed for the purposes of Part 2 or other purposes connected with the education of a child or young person. This can include regulations about additional persons who must receive copies of IDPs, and cases when copies of plans must be provided without the consent of the child, the child's parent or young person.

#### **Section 83 - Parents and young people lacking capacity**

175. Section 83 requires regulations to be made to enable parents and young people who are lacking mental capacity at a time when they have a right to something under Part 2 (e.g. to receive a notification or to make an appeal), to be represented by an appropriate person. In this section, reference to lacking capacity refers to the definition in the Mental Capacity Act 2005.

#### **Section 84 - Capacity of children**

176. Section 84 provides for circumstances where a child does not have sufficient understanding and intelligence to understand documents provided under Part 2, or what it means to exercise the rights under that Part. This could be due to their young age, or for other reasons, such as a learning difficulty. Where a governing body, local authority, or NHS body considers that a child does not have the ability to understand, and/or where the Tribunal has made a declaration to that effect, duties under the Act to provide the child with information or notify them of decisions do not apply unless a case friend has been appointed for the child by the Tribunal or the Tribunal has declared that the child does have capacity. (See section 85(4) and (5) for the effect of the appointment of a case friend for a child on the exercise of that child's rights under Part 2).
177. On the same basis, this section disapplies duties to review or reconsider decisions or IDPs or to decide whether to take over an IDP following a request from a child who is considered to lack the capacity to understand.

178. Pan fo corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn ystyried bod gan blentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd i ddeall, mae is-adran (6) yn galluogi'r plentyn neu riant y plentyn i ofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn ailystyried y mater. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu ar y mater wedyn. Pa un a wneir cais o'r fath ai peidio, os yw awdurdod lleol o farn wahanol i'r corff llywodraethu ar alluedd plentyn penodol, barn yr awdurdod lleol sy'n drech, ar yr amod bod yr awdurdod wedi rhoi gwybod i'r corff llywodraethu am ei farn (is-adran (2) ynghyd ag is-adran (3)(a) ac is-adran (4)). Yn ogystal, gellir ceisio datganiad gan y Tribiwnlys fod gan blentyn y galluedd i ddeall neu nad oes ganddo'r galluedd i ddeall (gweler adran 71(2)).

#### **Adran 85 - Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd**

179. Mae adran 85 yn darparu ar gyfer penodi (neu ddiswyddo) "cyfaill achos" drwy orchymyn gan y Tribiwnlys, pan na fo gan y plentyn y galluedd i gynnal apelau, i wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â hawliau a roddir gan y Ddeddf, neu i ddeall gwybodaeth neu ddogfennau a anfonir ato.
180. Mae cyfaill achos yn gallu cynrychioli a chefnogi'r plentyn, gwneud penderfyniadau ar ei ran ac arfer hawliau'r plentyn o dan y Ddeddf. Rhaid i'r cyfaill achos, ymhlið pethau eraill, weithredu'n deg ac yn gymwys ac er budd y plentyn (is-adran (6)).
181. Bydd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu rhagor o fanylion o ran sut y gellid defnyddio cyfeillion achos i gefnogi hawliau plant. Bydd cael cyfaill achos yn caniatáu i blant nad ydynt, er enghraifft, yn cael cymorth gan eu rhiant i ddwyn apêl neu i arfer hawliau eraill o dan y Ddeddf.

#### **Cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach**

#### **Adran 86 - Myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch**

182. Mae swyddogaethau amrywiol awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yn Rhan 2 yn ymwneud â phobl ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach. Mae adran 86 yn darparu nad yw myfyrwr ymrestredig sy'n dilyn cwrs addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad addysg bellach i gael ei drin fel pe bai wedi ymrestru'n fyfyrwr yn y sefydliad addysg bellach at ddibenion Rhan 2. Fodd bynnag, os yw myfyrwr ymrestredig yn cael addysg uwch ac addysg (a ddiffinnir yn adran 99 i beidio â chynnwys addysg uwch) neu hyfforddiant gan y sefydliad addysg bellach, dim ond mewn perthynas â'r addysg uwch ac nid ar gyfer yr addysg neu hyfforddiant arall y mae'r myfyrwr yn fyfyrwr addysg uwch (is-adran (4)).
183. Effaith hyn nad yw swyddogaethau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach sy'n ymwneud â myfyrwyr ymrestredig yn gymwys i fyfyrwyr i'r graddau y maent yn fyfyrwyr addysg uwch. Er enghraifft, nid yw corff llywodraethu sefydliad addysg bellach o dan ddyletswydd i benderfynu (yn adran 11) a oes gan fyfyrwr ADY os nad yw ond yn darparu addysg uwch ar ei gyfer. Mae cwrs addysg uwch yn gwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwylir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988.

178. Where a governing body of a maintained school considers that a child does or does not have the capacity to understand, subsection (6) enables the child or child's parent to request that the local authority responsible for the child reconsiders the matter. The local authority must then decide the matter. Whether or not such a request is made, if a local authority takes a different view to the governing body on the capacity of a particular child, it is the local authority's view that prevails, provided the authority has informed the governing body of its view (subsection (2) together with subsection (3)(a) and subsection (4)). Additionally, a declaration can be sought from the Tribunal that a child does or does not have capacity to understand (see section 71(2)).

#### **Section 85 - Case friends for children who lack capacity**

179. Section 85 provides for a "case friend" to be appointed (or removed) by order of the Tribunal, where the child lacks the capacity to conduct appeals, make decisions in respect of rights conferred by the Act, or understand information or documents which are sent to them.
180. A case friend is able to represent and support the child, take decisions on their behalf and exercise the child's rights under the Act. The case friend must, amongst other things, act fairly and competently and for the benefit of the child (subsection (6)).
181. Regulations made under this section will allow the Welsh Ministers to provide further details on how case friends might be used to support the rights of children. Having a case friend will allow children who, for example, may not receive assistance from their parent to bring an appeal or exercise other rights under the Act.

#### **Higher education courses provided by further education institutions**

##### **Section 86 – Students at further education institutions undertaking higher education courses**

182. Various functions of local authorities and governing bodies of FEIs in Part 2 relate to young people who are enrolled as students at an FEI. Section 86 provides that an enrolled student undertaking a course of higher education provided by the FEI, is not to be treated as an enrolled student of the FEI for the purposes of Part 2. However if an enrolled student is being provided by the FEI with both higher education and education (defined in section 99 to exclude higher education) or training, the student is only a higher education student in relation to the higher education and not for the other education or training (subsection (4)).
183. The effect is that functions of local authorities and governing bodies of FEIs which relate to enrolled students do not apply to students to the extent that they are higher education students. For example, a governing body of an FEI is not under the duty to decide (in section 11) whether a student for whom it is only providing higher education has ALN. A course of higher education is a course of any description mentioned in Schedule 6 to the Education Reform Act 1988.

### **Adran 87 - Cymhwysyo darpariaethau ailystyried i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n preswylio yn Lloegr**

184. Mae'r adran hon yn cymhwysyo, gydag addasiadau, swyddogaethau penodol awdurdodau lleol o dan y Ddeddf i blant a phobl ifanc sydd yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond sy'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol i ystyried penderfyniadau gan gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a chynlluniau a gynhelir ganddynt, mewn cysylltiad â disgyblion yn eu hardal (gweler, er enghraifft, adran 26). Mae hawliau apelio yn erbyn y penderfyniadau hynny gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na phenderfyniadau'r corff llywodraethu (gweler adran 70). Fodd bynnag, mae'n bosibl bod disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Er mwyn sicrhau bod dysgwyr o'r fath sy'n preswylio yn Lloegr yn gallu herio penderfyniadau ysgolion mewn perthynas ag ADY, mae'r adran hon yn cymhwysyo, gydag addasiadau, yr adrannau sy'n gysylltiedig ag ailystyried penderfyniadau cyrff llywodraethu ysgolion gan awdurdodau lleol.
185. Yn unol â hynny, yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol yng Nghymru y mae'r plentyn neu'r person ifanc sy'n preswylio yn Lloegr yn ei mynychu sy'n gyfrifol am ailystyried penderfyniadau yngylch ADY (yn unol ag adran 26), ailystyried CDUau y corff llywodraethu (yn unol ag adran 27), ac ailystyried penderfyniadau'r corff llywodraethu i beidio â chynnal CDUau (yn unol ag adran 32). Mae rhai gwahaniaethau yng nghymhwysiad y darpariaethau hyn o ran yr hyn y caiff yr awdurdod lleol sy'n cynnal ei wneud, sy'nadlewyrchu bod awdurdod lleol yn Lloegr sydd â chyfrifoldebau o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig. Er enghraifft, ni chaiff yr awdurdod lleol ond gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gynnal neu i lunio a chynnal CDU - ni all gynnal y CDU ei hun na chymryd drosodd y cyfrifoldeb amdano. Yn ogystal, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol lunio CDU neu gyfarwyddo corff llywodraethu i wneud hynny pan fo wedi gofyn i'r awdurdod lleol perthnasol yn Lloegr gynnal asesiad o anghenion y plentyn neu'r person ifanc o dan adran 36 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 neu pan fo Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Cynllun AIG) yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan y Ddeddf honno. Rhaid i drefniadau awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau a gwasanaethau eirioli annibynnol fod ar gael hefyd i ddisgyblion o'r fath a hefyd i bobl ifanc yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr sydd wedi ymrestru'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach yn ardal yr awdurdod lleol yng Nghymru (is-adran (4)).

### **Adran 88 - Rhoi hysbysiad etc. o dan y Rhan hon**

186. Pan fo Rhan 2 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol roi dogfen i berson neu hysbysu person, neu pan fo'n awdurdodi corff llywodraethu neu awdurdod lleol i wneud hynny, caniateir iddo gael ei wneud drwy'r dulliau danfon a restrir yn yr adran hon. Dim ond pan fo'r person wedi nodi ei fod yn dymuno cael hysbysiadau neu ddogfennau yn electronig ac wedi darparu cyfeiriad addas y caiff hysbysiadau neu ddogfennau gael eu danfon yn electronig.

### **Adran 89 - Adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg**

187. Mae adran 89 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drefnu adolygiadau o ddigonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ac adroddiadau arno. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf cyn 1 Medi yn y bumed flwyddyn yn dilyn cychwyn drwy orchymyn unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2, ac ar ôl hynny, cyn 1 Medi yn y bumed flwyddyn yn dilyn y flwyddyn ddiwethaf yr oedd yn ofynnol cyhoeddi adroddiad ynddi.

### **Section 87 - Application of reconsideration provisions to pupils and students resident in England**

184. This section applies, with modifications, specific local authority functions under the Act to children or young people who are in the area of a local authority in England but attend a maintained school in Wales. The Act gives local authorities functions to reconsider decisions of, and plans maintained by, governing bodies of maintained schools, in respect of pupils in its area (see, for example, section 26). Appeal rights lie against those local authority decisions, rather than those of the governing body (see section 70). However, registered pupils at the school may be in the area of a local authority in England. In order to ensure that such English resident learners can challenge decisions of schools in relation to ALN, this section applies with modifications the sections which link to local authorities reconsidering school governing body decisions.
185. Accordingly, it is the local authority maintaining the school in Wales attended by the English resident child or young person that is responsible for reconsidering decisions about ALN (in accordance with section 26), reconsidering governing body IDPs (in accordance with section 27), and reconsidering governing body decisions to cease to maintain IDPs (in accordance with section 32). There are some differences in the application of these provisions regarding what the maintaining local authority may do, which reflect that there is a local authority in England with responsibilities under the Children and Families Act 2014 in relation to special educational needs. For example, the local authority may only direct the governing body to maintain, or prepare and maintain an IDP – it cannot itself maintain or take over responsibility for the IDP. In addition, the local authority is not required to prepare an IDP or direct a governing body to do so where it has requested the relevant English local authority to conduct an assessment of the child or young person's needs under section 36 of the Children and Families Act 2014 or where an Education, Health and Care Plan (EHC Plan) is maintained for the child or young person under that Act. A local authority's arrangements for avoiding and resolving disputes and independent advocacy services must also be available to such pupils and also to young people in the area of a local authority in England who are enrolled as students at an FEI in the area of the local authority in Wales (subsection (4)).

### **Section 88 - Giving notice etc. under this Part**

186. Where Part 2 requires or authorises a governing body or local authority to give a document to or notify a person, it may be done by the methods of delivery listed in this section. Electronic delivery can only take place where the person has indicated that they wish to receive notifications or documents electronically and has provided a suitable address.

### **Section 89 - Review of additional learning provision in Welsh**

187. Section 89 requires the Welsh Ministers to arrange reviews and reports on the sufficiency of additional learning provision in Welsh. The first report must be published before 1 September in the fifth year following the commencement by order of any provision of Part 2, and thereafter before 1 September in the fifth year following the last year in which a report was required to be published.

## **Adran 90 - Pŵer i ddiwygio dyletswyddau i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg**

188. Mae adran 90 yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau sy'n dileu'r geiriau "gymryd pob cam rhesymol i" o'r darpariaethau hynny yn y Ddeddf (a restrir yn is-adran (1)) sy'n ymwneud â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg neu'n darparu yn y darpariaethau hynny nad yw'r geiriau "gymryd pob cam rhesymol i" yn gymwys mwyach mewn perthynas â chyrrff rhagnodedig penodol neu at ddiben rhagnodedig, neu at ddiben rhagnodedig mewn perthynas â chorff rhagnodedig. Effaith dileu'r geiriau yw bod y ddyletswydd o dan sylw yn newid o fod yn ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei darparu yn Gymraeg i berson i dyletswydd i sicrhau y caiff ei darparu yn Gymraeg.
189. Mae adran 90 hefyd yn darparu i Weinidogion Cymru y pŵer i hepgor adran 89 (h.y. y ddyletswydd i drefnu adolygiadau o ddigonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg) os yw'r geiriau "gymryd pob cam rhesymol i" wedi eu dileu o'r holl ddarpariaethau a restrir yn is-adran (2). Mae'r adran hon yn cysylltu ag adran 89 oherwydd canlyniad yr adolygiadau fydd ystyriaeth berthnasol yn y penderfyniad i arfer y pŵer hwn i wneud rheoliadau.

## **Rhan 3 – Tribiwnlys Addysg Cymru**

### **Adran 91 - Cyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru**

190. Mae adran 91 yn darparu i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gael ei ailienwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru ('y Tribiwnlys'). Mae'r adran hon yn nodi sut y mae'n cael ei gyfansoddi, gan gynnwys bod rhaid iddo gael Llywydd, 'panel cadeirydd cyfreithiol' a 'panel lleyg', ac mae'n darparu ar gyfer eu priod benodiadau. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys.

### **Adran 92 - Y Llywydd ac aelodau'r paneli**

191. Mae adran 92 yn nodi'r telerau a'r gofynion y caniateir i berson gael ei benodi, ei ailbenodi neu ei ddiswyddo odanynt fel Llywydd, aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu aelod lleyg o'r Tribiwnlys. Mae'r adran hon hefyd yn caniatâu i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â gofynion ar gyfer penodi aelodau'r panel lleyg.

### **Adran 93 - Dirprwy Lywydd y Tribiwnlys**

192. Mae adran 93 yn darparu i Lywydd y Tribiwnlys benodi Dirprwy Lywydd o blith aelodau'r panel cadeirydd cyfreithiol. Caiff y Dirprwy Lywydd arfer swyddogaethau'r Lywydd o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (5).

### **Adran 94 - Tâl a threuliau**

193. Mae adran 94 yn galluogi Gweinidogion Cymru i dalu am wasanaethau'r Llywydd, aelodau'r panel cadeirydd cyfreithiol ac aelodau'r panel lleyg, a threuliau'r Tribiwnlys.

**Section 90 - Power to amend duties to secure additional learning provision in Welsh**

188. Section 90 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations which remove the words “take all reasonable steps to” from those provisions of the Act (listed in subsection (1)) which relate to securing ALP in Welsh or provide that in those provisions, the words “take all reasonable steps to” no longer apply in relation to certain prescribed bodies or for a prescribed purpose, or for a prescribed purpose in relation to a prescribed body. The effect of removing the words is that the duty concerned changes from being a duty to take all reasonable steps to secure that ALP is provided to a person in Welsh to a duty to secure that it is provided in Welsh.
189. Section 90 also provides the Welsh Ministers with the power to omit section 89 (i.e. the duty to arrange reviews of the sufficiency of Welsh language ALP) if the words “take all reasonable steps” are removed from all the provisions listed in subsection (2). This section links to section 89 because the outcome of the reviews will be a relevant consideration in the decision to exercise this regulation making power.

**Part 3 - Education Tribunal for Wales**

**Section 91 - Constitution of the Education Tribunal for Wales**

190. Section 91 provides for the Special Education Needs Tribunal for Wales to be renamed as the Education Tribunal for Wales ('the Tribunal'). This section sets out how it is constituted, including that it must have a President, a 'legal chair panel' and a 'lay panel', and provides for their respective appointments. This section also enables the Welsh Ministers to make regulations relating to the Tribunal.

**Section 92 - The President and members of the panels**

191. Section 92 sets out the conditions and requirements under which a person may be appointed, re-appointed or may resign as a President, a member of the legal chair panel or a lay panel member of the Tribunal. This section also allows for regulations to be made by the Welsh Ministers in relation to requirements for the appointment of members of the lay panel.

**Section 93 - Deputy President of the Tribunal**

192. Section 93 provides for the President of the Tribunal to appoint a Deputy President from among the members of the legal chair panel. The Deputy President may exercise functions of the President in the circumstances set out in subsection (5).

**Section 94 - Remuneration and expenses**

193. Section 94 enables the Welsh Ministers to pay for the services of the President, members of the legal chair panel and lay panel members, and the expenses of the Tribunal.

#### **Rhan 4 - Amrywiol a Chyffredinol**

##### **Adran 95 - Ystyr "yn ardal" awdurdod lleol**

194. Mae adran 95 yn diwygio diffiniad rhannol Deddf 1996 o "yn ardal" awdurdod lleol. Mae'r diffiniad rhannol hwnnw yn darparu nad yw cyfeiriadau at berson sydd "yn ardal" awdurdod lleol yn Lloegr yn Neddf 1996 yn cynnwys person a fyddai'n preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru (er enghraifft, person sy'n byw'n barhaol yng Nghymru). Mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn amodi hyn er mwyn sicrhau nad yw cyfeiriadau at berson sydd "yn ardal" awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnwys person a fyddai'n preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru oni bai am ddarpariaeth a sicrheir o dan Ran 2. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, fod person ifanc sy'n byw yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedyn yn cael ei leoli gan yr awdurdod hwnnw mewn sefydliad addysgol preswyl yn Lloegr am gwrs dwy flynedd er mwyn sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol yn dal i fod yn ardal yr awdurdod lleol yng Nghymru ac felly fod yr awdurdod hwnnw yn parhau i fod yn gyfrifol am y person o dan Ran 2 (ac felly fod rhaid iddo gynnal CDU y person, ei adolygu, sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, etc.).
195. Yn yr un modd, mae'r diffiniad rhannol yn Neddf 1996 ar gyfer cyfeiriadau at berson sydd yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn cael ei ddiwygio fel nad yw cyfeiriadau o'r fath yn cynnwys person a fyddai'n preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, oni bai am ddarpariaeth a sicrheir o dan Ran 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.
196. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod pŵer i wneud rheoliadau yn Neddf 1996 gan ganiatâu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch ystyr cyfeiriadau at y ffaith bod person yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru.
197. Mae'r diffiniad yn Neddf 1996 fel y'i diwygir gan yr adran hon yn cymhwysyo, at ddibenion Deddf 1996, y Ddeddf hon (gweler adran 99(6)) a darpariaethau Deddfau Addysg eraill y mae'r diffiniad yn Neddf 1996 yn gymwys iddynt.

##### **Adran 96 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

198. Mae adran 96 yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

##### **Adran 97 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.**

199. Mae adran 97 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu arbed os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf hon neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf neu at ddibenion unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf. Caiff y rheoliadau ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddarpariaethau mewn deddfiad (a ddiffinnir yn adran 99(1)) a dogfennau statudol (a ddiffinnir yn is-adran (4)).

#### **Part 4 – Miscellaneous and General**

##### **Section 95 - Meaning of “in the area” of a local authority**

194. Section 95 amends the 1996 Act’s partial definition of “in the area” of a local authority. That partial definition provides that references to a person who is “in the area” of a local authority in England in the 1996 Act, do not include a person who would be wholly or mainly resident in the area of a local authority in Wales (for example, a person living permanently in Wales). The amendments made by this section qualify this to ensure that references to a person “in the area” of a local authority in England do not include a person who would be wholly or mainly resident in the area of a local authority in Wales were it not for provision secured under Part 2. This means, for example, that a young person living in the area of a local authority in Wales who is then placed by that authority at a residential educational institution in England for a two year course in order to secure ALP, is still in the area of the local authority in Wales and therefore that authority continues to be responsible for the person under Part 2 (and so must maintain the person’s IDP, review it, secure the ALP, etc.).
195. Similarly, the partial definition in the 1996 Act for references to a person who is in the area of a local authority in Wales, is amended so that such references do not include a person who would be wholly or mainly resident in a local authority area in England, were it not for provision secured under Part 3 of the Children and Families Act 2014.
196. This section also inserts a regulation power into the 1996 Act allowing the Welsh Ministers to make further provision about the meaning of references to a person being in the area of a local authority in Wales.
197. The 1996 Act definition as amended by this section applies for the purposes of the 1996 Act, this Act (see section 99(6)) and provisions of other Education Acts to which the 1996 Act definition applies.

##### **Section 96 - Minor and consequential amendments and repeals**

198. Section 96 introduces Schedule 1, which makes minor and consequential amendments and repeals.

##### **Section 97 - Power to make consequential and transitional provision etc.**

199. Section 97 provides the Welsh Ministers with power to make regulations to make supplementary, incidental, consequential, transitory, transitional or saving provisions if they consider it necessary or expedient to give full effect to any provisions in this Act or in consequence of any provisions in the Act or for the purposes of any provisions of the Act. The regulations may amend, repeal or revoke any provisions in an enactment (defined in section 99(1)) and statutory documents (defined in subsection (4)).

### **Adran 98 - Rheoliadau**

200. Mae adran 98 yn nodi bod pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i gael eu harfer drwy offeryn statudol. Mae'n caniatáu i'r rheoliadau hynny wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol; a gwneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu arbed. Mae hefyd yn nodi gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gymwys i'r pwerau i wneud rheoliadau.

### **Adran 99 - Dehongli cyffredinol**

201. Mae adran 99 yn darparu dehongliadau a diffiniadau o dermau a chyfeiriadau a ddefnyddir yn y Ddeddf. Mae hefyd yn darparu i ddiffiniadau yn Neddf 1996 fod yn gymwys pan ddefnyddir y term diffiniedig yn y Ddeddf hon, oni roddir ystyr gwahanol i'r term yn y Ddeddf hon, ac mewn achos o'r fath mae'r diffiniad yn y Ddeddf hon yn gymwys (is-adrannau (6) a (7)). O ganlyniad, mae termau amrywiol yn y Ddeddf yn dwyn ystyr Deddf 1996 (er enghraifft, 'ysgol' a 'rhiant').
202. Ymhlieth pethau eraill, mae'r adran hon yn darparu, at ddibenion y Ddeddf, fod awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os yw'r plentyn neu'r person ifanc "yn ardal" yr awdurdod lleol. Mae ystyr "in the area of" (yn ardal awdurdod lleol) yn Neddf 1996 yn gymwys (mae adran 95 yn diwygio'r diffiniad rhannol o'r term hwnnw yn adran 579 o Ddeddf 1996).

### **Adran 100 - Dod i rym**

203. Mae adran 100 yn darparu i nifer o adrannau ddod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol; mae'r adrannau hyn wedi eu rhestru yn is-adran (1). Mae hefyd yn darparu i baragraff 5 o Atodlen 1 ddod i rym dda fis ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Mae'n darparu i'r darpariaethau sy'n weddill yn y Ddeddf ddod i rym ar y diwrnod a nodir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, sy'n arferadwy drwy offeryn statudol, a gaiff bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol; a chaiff y gorchymyn wneud darpariaethau darfodol, trosiannol neu arbed sy'n gysylltiedig â chychwyn.

### **Adran 101 - Enw byr a chynnwys y Ddeddf yn y rhestr o Ddeddfa Addysg**

204. Enw byr y Ddeddf yw 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018'.
205. Mae'r Ddeddf wedi ei chynnwys yn y rhestr o Ddeddfa Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf 1996 (is-adran (2)). Effaith hyn ac adran 99(6) (sy'n darparu i ddarpariaethau'r Ddeddf hon gael eu darllen fel pe baent yn Neddf 1996) yw bod gan Weinidogion Cymru bwerau i ymyrryd os bydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf neu'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn ffordd afresymol. Y pwerau hyn yw pwerau Gweinidogion Cymru yn Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymyrryd yn ymddygiad ysgolion a gynhelir ac yn arferiad awdurdod lleol o'i swyddogaethau addysg. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ymyrryd hefyd (o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992) mewn perthynas â chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach os byddant yn torri dyletswyddau o dan y Ddeddf hon neu'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn ffordd afresymol.

### **Section 98 - Regulations**

200. Section 98 sets out that powers to make regulations under this Act are to be exercised by statutory instrument. It allows for such regulations to make different provision for different purposes or cases; and to make incidental, supplementary, consequential, transitory, transitional or saving provisions. It also sets out the procedure of the National Assembly for Wales applicable to the regulation making powers.

### **Section 99 - General interpretation**

201. Section 99 provides interpretations and definitions of terms and references used in the Act. It also provides for definitions in the 1996 Act to apply where the defined term is used in this Act, unless the term is given a different meaning in this Act, in which case this Act's definition applies (subsections (6) and (7)). As a result, various terms in the Act bear the 1996 Act's meaning (for example, 'school' and 'parent').
202. Amongst other things, this section provides that for the purposes of the Act, a local authority is responsible for a child or young person if he or she is "in the area of" the local authority. The 1996 Act meaning of "in the area of" a local authority applies (section 95 amends the partial definition of that term in section 579 of the 1996 Act).

### **Section 100 - Coming into force**

203. Section 100 provides for a number of sections to come into force on the day after the day of Royal Assent; these sections are listed in subsection (1). It also provides for paragraph 5 of Schedule 1 to come into force two months after the day of Royal Assent. It provides for the remaining provisions within the Act to come into force on the day set out in an order made by the Welsh Ministers, exercisable by statutory instrument, which may appoint different days for different purposes or cases; and the order may make transitory, transitional or saving provisions connected to commencement.

### **Section 101- Short title and inclusion as one of the Education Acts**

204. The short title of the Act is 'the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018'.
205. The Act is included in the list of Education Acts set out in section 578 of the 1996 Act (subsection (2)). The effect of this and section 99(6) (which provides for provisions of this Act to be read as if in the 1996 Act) is that the Welsh Ministers have powers to intervene in the event of a governing body of a maintained school or local authority failing to comply with duties under the Act or unreasonably exercising functions under the Act. These are the Welsh Ministers' powers in Part 2 of the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013 to intervene in the conduct of maintained schools and in a local authority's exercise of its education functions. The Welsh Ministers also have powers to intervene (under section 57 of the Further and Higher Education Act 1992) in relation to governing bodies of FEIs in the event of breaches of duties under this Act or unreasonably exercising functions under this Act.

### **Atodlen 1 - Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol a Diddymiadau**

206. Mae paragraffau 1-24 o Atodlen 1, fel y bo'n briodol, yn diddymu darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi eu disodli gan ddarpariaethau a gynhwysir yn y Ddeddf hon (gan gynnwys, er enghraifft, y cyfan o Bennod 1 o Ran 4 (plant yng Nghymru ag anghenion addysgol arbennig) o Ddeddf 1996), yn disodli cyfeiriadau at dermau a wneir yn ddarfodedig gan y Ddeddf hon ac yn eu lle yn rho'i'r termau y mae'n eu cyflwyno (er enghraifft, rhoi cyfeiriadau at anghenion dysgu ychwanegol yn lle anghenion addysgol arbennig), ac yn rhoi cyfeiriadau at ddarpariaethau cyfatebol yn y Ddeddf yn lle cyfeiriadau at ddarpariaethau sydd wedi eu diddymu neu eu diwygio.
207. Yn ogystal, mae'r Atodlen yn gwneud y mân ddiwygiadau a ganlyn.
208. Mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud â gorchmynion mynychu'r ysgol yn Neddf 1996, mae paragraff 4, is-baragraffau (14), (15), (17) a (18), yn addasu'r prosesau perthnasol fel bod y dewis cyfatebol mwyaf priodol yng nghyd-destun gorchmynion o'r fath yn cael ei roi yn lle cyfeiriad at ddatganiadau anghenion addysgol arbennig, hynny yw cynlluniau datblygu unigol sy'n enwi ysgol benodol (ni fydd pob cynllun datblygu unigol yn enwi ysgol benodol).
209. Mae paragraff 4, is-baragraff (30) yn diwygio Deddf 1996 fel y bydd offeryn statudol sydd i gael ei wneud sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 562J(4) o Ddeddf 1996 ac adran 39(2) (y mae'r ddau ohonynt yn ymwneud ag ystyr "awdurdod cartref" mewn cysylltiad â phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
210. Mae is-baragraff (30) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch ystyr cyfeiriadau yn Neddf 1996 at berson sydd "yn ardal" awdurdod lleol yng Nghymru (mewn rheoliadau o dan is-adran (3C) o adran 579 o'r Ddeddf honno fel y'i mewnosodir gan adran 95(c)) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
211. Mae paragraff 5 yn diwygio adran 333(5) o Ddeddf 1996 fel nad yw'n ofynnol cael cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol mwyach ar gyfer rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â TAAAC. Darpariaeth drosiannol yw hon na fydd ei hangen pan fydd Rhan 3 (Tribiwnlys Addysg Cymru) yn dod i rym. Mae paragraff 6(t) felly yn darparu i baragraff 5 gael ei hepgor pan fydd adran 333(5) o Ddeddf 1996 wedi ei diddymu o dan baragraff 4(9).
212. Mae paragraff 9, is-baragraff (2) yn mewnosod dyletswydd yn adran 153(2) o Ddeddf Addysg 2002 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau y mae darparwyr addysg feithrin nas cynhelir wedi eu cylrido odanynt gan awdurdodau lleol gynnwys gofyniad ar y darparwyr i roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol yn y cod ADY. Mae adran 153 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod y darparwyr addysg feithrin hynny yn bodloni'r gofynion a osodir arnynt gan yr awdurdod lleol.

**Schedule 1 – Minor and Consequential Amendments and Repeals**

206. Paragraphs 1-24 of Schedule 1, as appropriate, repeal provisions in primary legislation replaced by provisions included in this Act (including, for example, the whole of Chapter 1 of Part 4 (children in Wales with special educational needs) of the 1996 Act), substitute references to terms made obsolete by this Act with the references to the terms it introduces (for example, replacing references to special educational needs with additional learning needs), and substitute references to repealed or amended provisions with references to equivalent provisions in the Act.
207. In addition, the Schedule makes the following minor amendments.
208. In relation to the provisions relating to school attendance orders found in the 1996 Act, paragraph 4, subparagraphs (14), (15), (17) and (18), modifies the relevant processes so that reference to statements of special educational needs are replaced by the most appropriate equivalent in the context of such orders, that is individual development plans that name a particular school (not all individual development plans will name a particular school).
209. Paragraph 4, sub-paragraph (30) amends the 1996 Act so that if a statutory instrument is to be made containing regulations under both section 562J(4) of the 1996 Act and section 39(2) (both of which relate to the meaning of “home authority” in respect of detained persons), it will be subject to affirmative rather than negative resolution procedure.
210. Sub-paragraph (30) also requires that regulations which make further provision about the meaning of references in the 1996 Act to a person who is “in the area” of a local authority in Wales (in regulations under subsection (3C) of section 579 of that Act as inserted by section 95(c)), are subject to the affirmative rather than negative resolution procedure.
211. Paragraph 5 amends section 333(5) of the 1996 Act so that regulations made by the Welsh Ministers in relation to the SENTW no longer require the agreement of the Secretary of State. This is a transitional provision which will not be needed once Part 3 (Education Tribunal for Wales) comes into force. Paragraph 6(t) therefore provides for the omission of paragraph 5 once section 333(5) of the 1996 Act has been repealed under paragraph 4 (9).
212. Paragraph 9, sub-paragraph (2) inserts a duty into section 153(2) of the Education Act 2002 requiring the arrangements under which non-maintained providers of nursery education are funded by local authorities, to include a requirement on the providers to have regard to any relevant guidance in the ALN code. Section 153 already requires local authorities to exercise their functions with a view to securing that those nursery education providers meet the requirements placed on them by the local authority.

213. Mae paragraff 12 yn mewnosod cyfeiriad at adran 61 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 ym mharagraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y system ADY yng Nghymru a'r system anghenion addysgol arbennig yn Lloegr mewn perthynas â'r pŵer i ddarparu ar gyfer archwiliad meddygol a thriniaeth feddygol disgylion sy'n mynchu sefydliadau addysgol ac eithrio ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.
214. Mae paragraff 14, is-baragraff (4) yn rhoi cyfeiriad at 'anhawster dysgu' yn lle'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn adran 14 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sydd â'r effaith o'i gwneud yn ofynnol i anawsterau dysgu yn gyffredinol gael eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â thynnun ôl drefniadau teithio.
215. Mae paragraff 19, is-baragraff (5)(f) yn mewnosod paragraff newydd yn Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn ei gwneud yn glir ar wyneb Deddf Cydraddoldeb 2010 y caiff unrhyw barti i drafodion ar hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys Addysg apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad gan y Tribiwnlys Addysg. Mae is-baragraffau (g) a (h) yn rhoi paragraff 6A newydd yn lle paragraff 6A presennol ac yn mewnosod paragraff newydd 6F yn Atodlen 17 sy'n delio yn eu tro â chyfeillion achos a galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwneud hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys Addysg yn parhau i fod yn gydnaws â'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwneud apelau i'r Tribiwnlys Addysg o dan y Ddeddf.
216. Mae paragraff 23, is-baragraff (3) yn diwygio adran 43(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 fel nad yw ysgolion yng Nghymru o dan ddyletswydd i dderbyn plentyn am fod yr ysgol wedi ei henwi mewn Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (cynllun AIG). Mae paragraff 21, is-baragraff (5) yn diwygio adran 83(6) o'r Ddeddf honno fel bod i'r diffiniad o "yn ardal" ("in the area of") awdurdod lleol a gynhwysir yn adran ddehongli'r Ddeddf honno yr un ystyr â'r term hwnnw yn adran 579 o Ddeddf 1996 (fel y'i diwygir gan adran 95 o'r Ddeddf hon).

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

217. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:
- <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=16496>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	12 Rhagfyr 2016
Cyfnod 1 - Dadl	6 Mehefin 2017
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	4 a 12 Hydref 2017
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	21 Tachwedd 2017
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	12 Rhagfyr 2017
Y Cydsyniad Brenhinol	24 Ionawr 2018

213. Paragraph 12 inserts a reference to section 61 of the Children and Families Act 2014 into paragraph 2 of Schedule 1 to the National Health Service (Wales) Act 2006. This secures appropriate reciprocity between the Welsh ALN and English special educational needs systems in relation to the power to provide for medical inspection and treatment of pupils in attendance at educational establishments other than schools maintained by local authorities.
214. Paragraph 14, subparagraph (4) replaces the term 'special educational needs' in section 14 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 with a reference to 'learning difficulty' which has the effect of requiring learning difficulties generally to be taken into consideration in decisions relating to the withdrawal of travel arrangements.
215. Paragraph 19, subparagraph (5)(f) inserts a new paragraph in Schedule 17 to the Equality Act 2010 to make clear on the face of the Equality Act 2010 that any party to proceedings on a disability discrimination claim to the Education Tribunal may appeal to the Upper Tribunal on any point of law arising from a decision of the Education Tribunal. Subparagraphs (g) and (h) replace the existing paragraph 6A and add a new paragraph 6F in Schedule 17 dealing respectively with case friends and the capacity of parents and persons over compulsory school age. This ensures that the legislative framework for the making of disability discrimination claims to the Education Tribunal remains compatible with the legislative framework for making appeals to the Education Tribunal under the Act.
216. Paragraph 23, subparagraph (3), amends section 43(1) of the Children and Families Act 2014 so that schools in Wales are not under a duty to admit a child because the school has been named in a Education, Health and Care Plan (EHC plan). Paragraph 21, subparagraph (5) amends section 83(6) of that Act so that the definition of "in the area" of a local authority included in that Act's interpretation section has the same meaning as that term has in section 579 of the 1996 Act (as amended by section 95 of this Act).

## **RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

217. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=16496>

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	12 December 2016
Stage 1 - Debate	6 June 2017
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	4 and 12 October 2017.
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	21 November 2017
Stage 4 Approved by the Assembly	12 December 2017
Royal Assent	24 January 2018







part of Williams Lea Tag

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), part of Williams Lea Tag, ac ar  
gael o:

**Arlein**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Testun: 0333 202 5077

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea Tag,  
and available from:

**Online**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Textphone: 0333 202 5077

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-11330-3



9 780348 113303